# Dynodi Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus

Datganiad ar y dulliau y bydd Ofcom yn eu defnyddio wrth wneud ein penderfyniadau dynodi

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 22 Gorffennaf 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, ewch i ofcom.org.uk

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg....3
2. Cefndir....6
3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom....9


## Atodiad


A1. Datganiad o Ddulliau....33

A2. Fframwaith Cyfreithiol....40

A3. Asesiad Effaith....48

# 1. Trosolwg

1.1 Mae Deddf Cyfryngau 2024 (y Ddeddf Cyfryngau) wedi cyflwyno trefn amlygrwydd ac argaeledd ar-lein newydd sy'n canolbwyntio ar lwyfannau teledu cysylltiedig. Mae'n galluogi pobl i ddewis a chael gafael ar raglenni a chwaraewyr teledu sy'n cael eu darparu drwy'r chwaraewyr hynny. Bydd y drefn newydd hon yn mynnu bod llwyfannau teledu cysylltiedig penodol yn sicrhau bod BBC iPlayer a chwaraewyr teledu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (PSB) eraill, yn ogystal â'u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ar gael yn amlwg ac yn hygyrch. Yn gyfnewid am y buddion newydd hyn, mae'n rhaid i PSBs sicrhau bod eu chwaraewyr teledu yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at gyflawni eu cylchoedd gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol (cylch gwaith unigol) a bod cynulleidfaoedd yn gallu canfod a gwylio cynnwys gwasanaeth cyhoeddus arnynt.

1.2 Cyfeirir at lwyfannau teledu cysylltiedig a allai ddod o fewn cwmpas y rheolau newydd hyn yn y ddeddfwriaeth fel 'gwasanaethau dethol teledu' (TSS). Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu pa TSS a ddynodir, ond mae'n rhaid iddynt fod wedi cael adroddiad gydag argymhellion gan Ofcom cyn gwneud penderfyniad. Ym mis Ebrill eleni, fe wnaethon ni gyhoeddi ein datganiad ar yr egwyddorion a'r dulliau y byddem yn eu defnyddio wrth gynhyrchu'r adroddiad hwnnw[1], a heddiw rydyn ni wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ein hadroddiad drafft i'r Ysgrifennydd Gwladol.[2]

1.3 Ar wahân i hynny, rôl Ofcom yw penderfynu pa chwaraewyr teledu PSB – a elwir yn 'wasanaethau rhaglenni rhyngrwyd' (IPS) yn ffurfiol – sy'n bodloni'r amodau a nodir mewn deddfwriaeth a fydd yn elwa ar y drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd. Ym mis Chwefror eleni, fe wnaethon ni gyhoeddi ymgynghoriad yn egluro ein dull gweithredu arfaethedig ochr yn ochr â Datganiad Dulliau drafft (Datganiad) ar gyfer asesu pa IPS y dylid eu dynodi.[3]

1.4 Cawsom gyfanswm o 15 ymateb i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darlledwyr gwasanaeth nad ydynt yn gyhoeddus, darparwyr llwyfannau teledu cysylltiedig a rhai grwpiau buddiant.

1.5 Rydyn ni wedi ystyried yr holl ymatebion yn ofalus wrth lunio'r Datganiad terfynol.[4] Yn y ddogfen hon, rydyn ni'n egluro'r rhesymeg dros ein penderfyniadau.

1.6 Mae'r ddogfen hon wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn egluro'r cefndir a'n hamcanion ar gyfer gweithredu'r drefn amlygrwydd ac argaeledd newydd.
- Mae **Adran 3** yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn nodi penderfyniadau Ofcom.
- Mae **Atodiad 1** yn cynnwys ein Datganiad terfynol.
- Mae **Atodiad 2** yn nodi'r fframwaith cyfreithiol.

[1] Ofcom, 2025, Datganiad: Dynodi Gwasanaethau Dethol Teledu, Datganiad o Egwyddorion a Dulliau.
[2] Ofcom, 2025, Ymgynghoriad: adroddiad drafft i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddynodi gwasanaethau dethol teledu
[3] Ofcom, 2025 Ymgynghoriad:Dynodi Gwasanaethau Rhaglenni Rhyngrwyd y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (yr 'ymgynghoriad').
[4] Rydyn ni wedi cyhoeddi pob ymateb nad oeddent yn rhai cyfrinachol ar ein gwefan.

- Mae **Atodiad 3** yn nodi'r asesiadau effaith.

1.7 Y cam nesaf fydd i ddarparwyr IPS sy'n dymuno gwneud cais i ddynodi eu IPS wneud cais i Ofcom. Bydd darparwyr IPS yn gallu gwneud cais am ddynodiad ym mis Ionawr 2026.

## Ein penderfyniadau – yn gryno

Ar ôl ystyried ymatebion rhanddeiliaid, a oedd yn cefnogi'r Datganiad drafft ar y cyfan, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r Datganiad fel y nodir yn yr ymgynghoriad ac eithrio dau ddiwygiad sy'n ymwneud â gwybodaeth am hyrwyddo a gallu canfod "cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus" (cynnwys PSR).[5] Rydyn ni wedi gwneud rhai newidiadau i'r broses gwneud cais hefyd.

Mae'r Datganiad diwygiedig yn nodi'r dull canlynol wrth wneud ein penderfyniadau ynghylch dynodi IPS a ddarperir gan drwyddedeion Channel 3, Channel Four Television Corporation (C4C), Channel 5 neu S4C:

- **Amod 1: A yw'r ISP yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith unigol y PSB?** Byddwn yn ystyried cylch gwaith unigol pob PSB wrth asesu arwyddocâd, a disgwyliwn y dylai IPS gynnwys yn gyffredinol yr holl gynnwys mae'r PSB wedi nodi, yn ei ddatganiad polisi rhaglenni (SoPP), a fwriedir i gyflawni ei gylch gwaith unigol.[6]
- **Amod 2: A yw'r cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a gynhwysir yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS?** Dylai mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau traffig uchel eraill[7] yr IPS gynnig cynnwys PSR yn bennaf. Yn benodol, rhaid i ddarparwyr IPS hyrwyddo'r canlynol a sicrhau ei bod yn hawdd ei ganfod: (i) cynnwys newyddion a materion cyfoes; a (ii) amrywiaeth eang o gynnwys sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, ym mannau traffig uchel eu IPS. Mewn ymateb i sylwadau rhanddeiliaid, rydyn ni wedi diwygio'r Datganiad i'w gwneud yn glir y dylai darparwyr IPS a) cyflwyno data perthnasol i ddangos bod cynnwys PSR yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo a b) cynnwys disgrifiad o'r nodau a'r blaenoriaethau sy'n sail i'w dull o guradu.[8]
- **A yw'n briodol i Ofcom ddynodi'r IPS?** Byddwn yn ystyried cynigion PSB yn ei SoPP ynghylch y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud i'w gylch gwaith unigol, sut y bydd yr IPS yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion a diddordebau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosib, a dull y PSB o fonitro perfformiad.
- **Y broses i ddarparwyr IPS wneud cais i ddynodi IPS.** Rydyn ni wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â phroses gwneud cais gynnar ar wahân ond yn hytrach byddwn yn

[5] Diffinnir cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus yn y Ddeddf fel deunydd sydd wedi'i gynnwys ar yr IPS sy'n cyfrannu at gyflawni cylch gwaith unigol PSBs trwyddedig neu S4C (Adran 362AA(12) o'r Ddeddf).

[6] Mae PSBs trwyddedig ac S4C yn gallu defnyddio 'gwasanaethau clyweledol perthnasol' – fel y diffinnir yn adran 264(11) o'r Ddeddf – ochr yn ochr â'u prif sianel deledu i gyfrannu at gyflawni eu cylchoedd gwaith unigol. Er mwyn cyflawni eu cylchoedd gwaith unigol, mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig ac S4C hefyd wneud "cyfraniad digonol" at y rhwymedigaeth gyfunol ar bob PSB i gyflawni'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer teledu yn y DU a nodir yn adran 264(4) o'r Ddeddf.

[7] Mae 'man traffig uchel' yn cyfeirio at fan ar yr IPS sy'n cael ei weld a/neu ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o bobl pan fyddant yn defnyddio'r IPS.

[8] Mae 'curadu' yn golygu dewis, trefnu a chyflwyno cynnwys ar yr IPS.

gwahodd darparwyr IPS i wneud cais yn ystod dwy ffenestr gwneud cais bob blwyddyn, gan ddechrau ym mis Ionawr 2026.

- **Y dulliau o ddirymu dynodiad IPS.** Byddwn yn defnyddio'r un dulliau ar gyfer ein penderfyniadau dynodi a’n penderfyniadau dirymu.

1.8 Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw’r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae ein penderfyniadau a’n rhesymeg wedi’u nodi yn adran 3 isod.

# 2. Cefndir

## Amcanion y drefn argaeledd ac amlygrwydd newydd dan y Ddeddf Cyfryngau

2.1 Mae arferion gwylwyr y DU wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae pobl yn gwylio mwy o deledu ar-lein, sy'n cael ei sbarduno gan ddefnydd nifer fawr o bobl o fand eang, amrywiaeth o ddyfeisiau cysylltiedig â gallu fideo, a llwyfannau a gwasanaethau newydd sy'n darparu catalogau enfawr ar-alw, gan gynnwys rhaglenni gwreiddiol â chyllideb fawr.[9] Er bod gwasanaethau teledu a radio sy'n cael eu darlledu'n fyw yn dal i gael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n eang, mae'r cynnydd yn y dewis a alluogir gan newid technolegol wedi digwydd law yn llaw â'r gostyngiad mewn gwylio a gwrando llinol.[10]

2.2 Ar ôl sawl degawd pan roedd eu gwasanaethau wedi'u strwythuro o amgylch dosbarthu llinol, mae darlledwyr wedi bod yn addasu i'r newidiadau hyn ac i ddisgwyliadau cynulleidfaoedd heddiw. Mae pob PSB yn y DU wedi datblygu chwaraewr sy'n cynnig cynnwys gwreiddiol, yn ogystal â rhywfaint o raglenni unigryw a thrwyddedig, y gellir cael gafael arno ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau cysylltiedig. Mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at y mathau hyn o chwaraewyr fel 'gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd' (IPS).

2.3 Er bod y fframwaith rheoleiddio a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) wedi sicrhau bod sianeli teledu llinol y PSBs[11] wedi bod ar gael yn eang ac yn hawdd eu canfod mewn amserlenni rhaglenni electronig am ddegawdau, hyd nes y pasiwyd y Ddeddf Cyfryngau nid oedd unrhyw reolau i sicrhau amlygrwydd cynnwys gwasanaeth cyhoeddus mewn amgylcheddau cyfryngau ar-lein.

2.4 Mae'r drefn newydd a gyflwynwyd gan Ran 2 o'r Ddeddf Cyfryngau – a oedd yn mewnosod Rhan 3A yn y Ddeddf – yn mynd i'r afael â hyn drwy adeiladu ar y fframwaith amlygrwydd presennol ar gyfer teledu llinol a chynnwys llwyfannau teledu cysylltiedig,[12] sy'n cael eu diffinio fel TSS gan y Ddeddf. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw creu rheoliadau i ddynodi TSS, a elwir wedyn yn 'TSS wedi'i reoleiddio' neu'n 'RTSS'.

2.5 Amcan craidd y drefn newydd hon yw sicrhau'r manteision gorau posib i gynulleidfaoedd drwy sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael i "mwyafrif helaeth y boblogaeth."[13] Felly, wrth nodi'r Datganiad yn **Atodiad 1** a phan fyddwn yn cymhwyso'r egwyddorion a'r dulliau wrth wneud ein penderfyniadau ynghylch dynodi, byddwn yn ceisio sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang i amrywiaeth eang o

---

[9]Mae dadansoddiad manylach o'r tueddiadau cyffredinol hyn ar gael yn adroddiadau Ofcom Dyfodol Dosbarthu Teledu a Chyfryngau'r Genedl 2024.

[10] Ofcom, 2024, Adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Cylch gorchwyl; ac Ofcom, 2024, Cyfryngau'r Genedl y DU 2024

[11] Mae sianeli teledu llinol y PSBs yn cynnwys holl wasanaethau teledu darlledu cyhoeddus y BBC, pob un o wasanaethau Channel 3, Channel 4, Channel 5 ac S4C.

[12] Ofcom, 2024, Y farchnad llwyfannau teledu cysylltiedig. Diweddariad ar ein gwaith.

[13] Paragraff 4 Nodiadau Esboniadol Deddf Cyfryngau 2024. Fe wnaeth yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon baratoi'r Nodiadau Esboniadol i helpu darllenwyr i ddeall y Ddeddf newydd hon gan Senedd y Deyrnas Unedig. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth gefndir am ddatblygiad polisi, ond nid ydynt yn rhan o'r Ddeddf Cyfryngau ac nid ydynt wedi'u cymeradwyo gan y Senedd.

gynulleidfaoedd yn y DU. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i'n dyletswyddau statudol perthnasol, sy'n cael eu crynhoi yn y fframwaith cyfreithiol (**Atodiad 2**).

# Beth yw gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd?

2.6 O dan y Ddeddf mae IPS yn wasanaeth y mae modd cael gafael arno dros y rhyngrwyd, a'i "brif bwrpas" yw darparu rhaglenni i ddefnyddwyr.[14] Gall IPS gynnwys un neu fwy o wasanaethau rhaglenni ar-alw, yn ogystal â gwasanaethau eraill fel gwasanaethau teledu llinol. Mae pob un o'r fersiynau diweddaraf o IPS y PSBs, sef BBC iPlayer, ITVX, Channel 4 (gwasanaeth ffrydio), 5 (gwasanaeth ffrydio), STV Player ac S4C Clic yn darparu mynediad at gymysgedd o raglenni llinol ac ar-alw.

2.7 Ar hyn o bryd un IPS sydd gan bob un o'r PSBs. O dan y Ddeddf, nid oes terfyn ar nifer yr IPS y gall PSB ofyn am ddynodiad ar eu cyfer,[15] ar yr amod bod pob IPS yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer dynodi.[16]

# Penderfynu pa IPS y gellir ei ddynodi

2.8 Gall Ofcom ddynodi IPS PSB trwyddedig – hynny yw, trwyddedeion Channel 3, C4C a Channel 5 – neu S4C.[17] Mae'r Ddeddf yn rhoi meini prawf ar waith ynghylch pwy sy'n gallu rheoli IPS, y cyfraniad y mae'n rhaid i'r IPS ei wneud (neu allu ei wneud) i gylch gwaith unigol y PSB, a'r cynnwys y dylid ei gynnig er mwyn iddo gael ei ddynodi.

## Fframwaith dynodi IPS

2.9 Cyn i ni wneud unrhyw benderfyniad ynghylch dynodi IPS, mae'n rhaid i Ofcom fod yn fodlon yn gyntaf bod darparwr yr IPS yn PSB trwyddedig, S4C neu'n unigolyn sy'n gysylltiedig â nhw, o fewn y telerau a bennir gan y Ddeddf.

2.10 At hynny, ni chaiff Ofcom ddynodi IPS oni bai bod y gwasanaeth yn bodloni amodau penodol.[18]

a) Mae'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol (Amod 1) y PSB;

b) Mae'n hawdd canfod rhaglenni sydd wedi'u cynnwys ar yr IPS sy'n cyfrannu at gylch gwaith[19] y PSB ac maen nhw'n cael eu hyrwyddo gan y gwasanaeth (Amod 2).

2.11 At hynny, mae'n rhaid i Ofcom ystyried ei bod yn briodol dynodi'r IPS.[20] Mae'r Ddeddf yn nodi rhai materion y mae'n rhaid i ni eu hystyried wrth asesu priodoldeb. Fodd bynnag, gallwn hefyd ystyried unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r asesiad hwn yn ein barn ni.[21]

---

[14] Adrannau 362AA(10) a (11) o'r Ddeddf.
[15] Mae adran 362AA(7)(b)(i) o'r Ddeddf yn rhag-weld y gallai PSB wneud cais am ddynodiad ar gyfer ail IPS neu IPS arall sydd wedi'i anelu at fodloni anghenion a diddordebau cynulleidfa benodol.
[16] Adran 362AA(2) o'r Ddeddf.
[17] Adran 362AA o'r Ddeddf. Mae'r IPS a ddarperir gan y BBC yn cael eu dynodi'n awtomatig o dan adran 362AA(1)(a) o'r Ddeddf (sydd heb ddod i rym eto).
[18] Adrannau 362AA(3) a (4) o'r Ddeddf.
[19] Cyfeirir at raglenni sy'n cyfrannu at gylch gwaith PSB yn y Ddeddf fel "cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus" (cynnwys PSR).
[20] Adran 362AA(2)(b) o'r Ddeddf.
[21] Adran 362AA(7) o'r Ddeddf.

2.12 Gall Ofcom hefyd benderfynu dirymu dynodiad IPS os yw'n ystyried bod sail resymol dros gredu nad yw'r IPS yn parhau i fodloni'r meini prawf dynodi a ddisgrifir uchod.[22] Cyn gallu gwneud penderfyniad o'r fath, mae'n rhaid i Ofcom yn gyntaf roi gwybod i ddarparwr yr IPS a rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau.

2.13 Wrth lunio'r Datganiad (**Atodiad 1**), rydyn ni wedi amlinellu sut rydyn ni'n bwriadu penderfynu a yw'r meini prawf dynodi yn cael eu bodloni wrth wneud ein penderfyniadau dynodi a dirymu.

## Rôl Datganiadau Polisi Rhaglenni (SoPPs) yn y broses o ddynodi IPS

2.14 SoPPs yw'r dogfennau y mae'r PSBs trwyddedig ac S4C yn eu defnyddio i nodi sut maen nhw'n bwriadu cyflawni eu rhwymedigaethau rheoleiddio, gan gynnwys sut maen nhw'n bwriadu cyflawni eu cylch gwaith unigol a gwneud cyfraniad digonol at gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus teledu'r DU (cylch gwaith cyffredinol y PSBs).[23] Mae SoPPs yn cynnwys Cynllun SoPP gyda chynigion y PSB ar gyfer y flwyddyn ganlynol ynghyd â'i adolygiad o berfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol (Adolygiad SoPP). Mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig gyhoeddi SoPP bob blwyddyn, gan ystyried canllawiau Ofcom. Mae'n rhaid i S4C hefyd baratoi SoPP bob blwyddyn ac ystyried canllawiau Ofcom wrth wneud hynny.[24]

2.15 Mae gan SoPPs rôl bwysig ym mhroses dynodi IPS. Wrth asesu a ddylid dynodi IPS, mae'n rhaid i ni ystyried y cynigion yng Nghynllun SoPP y PSB o ran y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud tuag at gyflawni ei gylch gwaith unigol ac a oes modd i'r cyfraniad hwnnw fodloni anghenion a diddordebau ystod eang o gynulleidfaoedd. Yn ogystal â hynny, mae Adolygiadau SoPP yn berthnasol gan fod yn rhaid i ni hefyd ystyried pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro ei berfformiad mewn perthynas â chyflawni ei gylch gwaith unigol. Mae'r canllawiau SoPP hefyd yn cynnwys ein cynigion o ran yr wybodaeth y mae'r PSBs ei chynnwys yn eu Cynlluniau SoPP at ddibenion ein hasesiad a'n penderfyniad ynghylch a yw Amod 1 ac Amod 2 wedi'u bodloni.

[22] Adran 362AB(2) o'r Ddeddf.
[23] Adran 264(4) o'r Ddeddf.
[24] Mae ein canllawiau SoPP yn nodi'r wybodaeth y dylai ac y gallai'r PSBs ei chynnwys yn eu SoPPs er mwyn egluro sut maen nhw'n bwriadu cyflawni eu cylchoedd gwaith unigol, gan gynnwys gwneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSBs.

# 3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom

3.1 Fel y trafodir yn Adran 2, wrth wneud ein penderfyniadau dynodi rhaid i ni ystyried y meini prawf a nodir yn y Ddeddf. Yn yr ymgynghoriad, roedden ni'n cynnig y dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth benderfynu: (i) a ddylid dynodi IPS; a (ii) a ddylid dirymu dynodiad IPS. Roedd ein hymgynghoriad yn asesu effaith ein cynigion ac yn gofyn y cwestiynau canlynol am y dulliau roedden ni'n cynnig eu defnyddio:

> **Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB?
>
> **Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'r cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys ar yr IPS yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth?
>
> **Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'n briodol dynodi IPS?
>
> **Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno â'n proses arfaethedig i PSBs wneud cais am ddynodiad IPS?
>
> **Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno â'n dulliau arfaethedig ar gyfer dirymu dynodiad IPS?

3.2 Cawsom 15 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac fe wnaethon ni eu hystyried yn ofalus wrth lunio fersiwn terfynol y Datganiad. Yn yr adran hon rydyn ni'n nodi ein hymatebion i'r materion a godwyd gan randdeiliaid cyn nodi ein penderfyniadau. Wrth wneud y penderfyniadau hyn, rydyn ni wedi ystyried eu heffaith a'n dyletswyddau statudol perthnasol. Mae ein hasesiadau effaith terfynol, gan gynnwys ar gydraddoldeb a'r Gymraeg, wedi'u nodi yn **Atodiad 3**.

## Amod 1: Cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith unigol PSBs

### Yr hyn a ddywedon ni

3.3 Yn yr ymgynghoriad,[25] roedden ni wedi cynnig defnyddio'r dulliau canlynol wrth benderfynu a yw'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith unigol y PSB (Amod 1):

a) Byddwn yn ystyried arwyddocâd yng nghyd-destun cylch gwaith unigol pob PSB.

b) Byddwn yn ystyried i ba raddau y bydd y cynnwys y mae'r PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol yn cael ei gynnwys ar yr IPS.

[25] Paragraff 4.14 yr ymgynghoriad.

c) Rydyn ni'n disgwyl y bydd y darparwr IPS yn cynnwys ar yr IPS yr holl gynnwys ar y gwasanaethau clyweledol perthnasol (gwasanaethau perthnasol)[26] y mae'r PSB wedi'u nodi yn ei SoPP y bwriedir iddynt gyflawni ei gylch gwaith unigol.

d) Pan fydd darparwr IPS yn gwneud cais i ddynodi ail IPS neu IPS arall a fyddai'n ceisio bodloni anghenion a diddordebau cynulleidfa benodol, roedden ni'n cynnig y dylai'r darparwr IPS gynnwys ar yr IPS hwn yr holl gynnwys y mae'r PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni'r agweddau ar ei gylch gwaith unigol sy'n berthnasol i'r gynulleidfa benodol honno.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.4 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi, yn gyffredinol, ein dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'r IPS yn gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB. Fodd bynnag, gofynnodd rhai rhanddeiliaid am ragor o eglurder ynghylch beth yw cyfraniad arwyddocaol,[27] ac roedd rhai yn credu nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell o ran yr hyn y dylem fynnu bod y PSBs yn ei wneud i sicrhau bod eu IPS yn gweithredu mewn ffordd sy'n darparu gwerth cyhoeddus.[28]

3.5 Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys C4C, ITV, S4C a Paramount/Channel 5 (Channel 5) yn croesawu'n arbennig ein cynigion i ystyried arwyddocâd yng nghyd-destun cylch gwaith unigol pob PSB, ac roedd S4C yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi fod Ofcom yn ystyried ei faint a'i gynulleidfa arfaethedig, yn ogystal â'i gylch gwaith unigol.[29]

3.6 Roedd ymatebwyr eraill yn cefnogi ein cynigion y dylai'r IPS ddarparu'r holl gynnwys ar y gwasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'u nodi yn ei SoPP y bwriedir iddynt gyflawni ei gylch gwaith unigol.[30] Roedd C4C ac ITV yn croesawu ein cydnabyddiaeth y gallai fod eithriadau yn hyn o beth. Nododd ITV y gallai'r holl raglenni sy'n cael eu darlledu fod ar gael ar-alw am gyfnodau gwahanol, er enghraifft oherwydd materion hawliau ar gyfer digwyddiadau byw,[31] ac awgrymodd y gellid adlewyrchu'r pwynt hwn yn benodol yn ein Datganiad.[32]

3.7 Gofynnodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys COBA, am ragor o fanylion ynghylch sut byddem yn diffinio ac yn asesu'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn 'gyfraniad arwyddocaol'.[33] Awgrymodd Ymddiriedolaeth Sandford St Martin (SSMT) y dylid ystyried cyfraniad arwyddocaol o ran ansawdd a darpariaeth cynnwys newydd, ac y dylid gofyn i PSBs adrodd ar eu cyfraniad ar draws yr ystod lawn o genres cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol – er enghraifft crefydd/cred, gwyddoniaeth, plant neu hanes – at

[26] Mae 'gwasanaethau clyweledol perthnasol' yn cael eu diffinio yn adran 264(11) o'r Ddeddf. Mae PSBs trwyddedig ac S4C yn gallu defnyddio gwasanaethau clyweledol perthnasol ochr yn ochr â'u prif sianel deledu i gyfrannu at gyflawni eu cylch gwaith unigol (er mwyn cyflawni eu cylch gwaith unigol, mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig ac S4C hefyd wneud "cyfraniad digonol" at gyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs (Adrannau 265(2)(b) a (3)(c) o'r Ddeddf (ar gyfer y PSBs trwyddedig); Adran 204A o'r Ddeddf (ar gyfer S4C), heb ddod i rym eto).

[27] Ymateb Virgin nad yw'n gyfrinachol, t.3 a t.7; ymateb COBA, t. 3; ymateb SSMT, t.2.

[28] Ymateb SSMT, t.3; ymateb IBT/Prifysgol Leeds, t.2.

[29] Ymateb C4C, t.3; ymateb S4C, t.1; ymateb Channel 5, t.2.

[30] Ymateb Sky nad yw'n gyfrinachol, t.2; ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.4; ymateb STV, t.4; ymateb C4C, t.3.

[31] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.5; ymateb C4C, t.3.

[32] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.5.

[33] Ymateb Virgin nad yw'n gyfrinachol, t.3 a t.7; ymateb COBA, t.3; ymateb IBT/Prifysgol Leeds, t.2 a t.7.

ddibenion ein penderfyniad ynghylch Amod 1.[34] Dywedodd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) y dylai unrhyw asesiad gan Ofcom ynghylch a yw’r IPS yn gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol ystyried amlder a chysondeb cynnwys sy’n adlewyrchu bywydau a phrofiadau pobl anabl.[35]

3.8 Roedd yr ymateb ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Ddarlledu Ryngwladol (IBT) a'r Athro Catherine Johnson o Brifysgol Leeds (IBT/Prifysgol Leeds) yn nodi nad oedd ein cynigion yn mynd yn ddigon pell o ran deall natur y llwyfannau IPS sy'n ceisio dynodiad. Yn benodol, mynegodd IBT/Prifysgol Leeds bryderon am ein gallu i benderfynu a yw IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus neu'n gallu gwneud hynny heb fod â dealltwriaeth fanwl o sut mae pob IPS wedi cael ei ddylunio, ei ddefnyddio a'i addasu.[36] Awgrymodd IBT/Prifysgol Leeds y dylai fod yn ofynnol i PSBs nodi'r gwerthoedd, yr egwyddorion a'r blaenoriaethau sy'n sail i'w IPS, ac sy’n llywio'r gwaith o ddatblygu a defnyddio algorithmau a systemau argymell. Rydyn ni’n trafod y pwynt hwn yn ein hymateb ym mharagraffau 3.24 i a 3.26 isod gan ei fod yn ymwneud â phwynt a godwyd gan IBT/Prifysgol Leeds mewn perthynas ag Amod 2 ynghylch yr wybodaeth y bydd ei hangen gan PSBs i gefnogi dynodiad IPS.

## Ein hymateb

3.9 Fel yr oedden ni wedi’i esbonio yn ein hymgynghoriad,[37] rydyn ni’n credu y byddai cynulleidfaoedd yn debygol o gael budd petai IPS yn darparu’r holl gynnwys ar y gwasanaethau perthnasol y mae’r PSB wedi’u nodi yn ei SoPP y bwriedir iddynt gyflawni ei gylch gwaith unigol. Rydyn ni’n cytuno â C4C ac ITV y gall fod eithriadau lle nad yw’n bosib nac yn briodol i ddarparwr IPS sicrhau bod cynnwys penodol sy’n cyfrannu at gylch gwaith y PSB ar gael ar ei IPS. Roedden ni’n cydnabod hyn yn ein hymgynghoriad,[38] ac mae'r Datganiad yn cydnabod yn unol â hynny[39] y gallai fod achosion lle nad yw IPS yn darparu’r holl gynnwys ar yr holl wasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'u nodi yn ei SoPP. Mae'r Datganiad yn gofyn i PSBs esbonio pan fydd hyn yn wir. O ystyried hyn, nid ydyn ni’n credu bod angen newid y Datganiad i adlewyrchu pwynt ITV y gallai rhaglenni sy'n cael eu darlledu barhau i fod ar gael ar-alw am wahanol gyfnodau.

3.10 Mewn perthynas â cheisiadau am ragor o eglurder ynghylch sut bydd Ofcom yn diffinio ac yn asesu a yw IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at gyflawni cylch gwaith unigol PSB, neu a yw'n gallu gwneud hynny, rydyn ni’n dal yn credu bod ein dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw Amod 1 yn cael ei fodloni yn ddigonol. Yn y Datganiad, rydyn ni’n egluro y byddwn yn ystyried arwyddocâd yng nghyd-destun cylch gwaith unigol pob PSB ac y byddwn yn ystyried yn benodol i ba raddau y bydd y cynnwys y mae'r PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni ei gylch gwaith unigol, fel y nodir yn ei SoPP, yn cael ei gynnwys ar yr IPS.[40] Fel rhan o'n hasesiad, byddwn felly'n ystyried yr wybodaeth yng Nghynllun SoPP y PSB ac yn asesu i ba raddau y mae'r cynnwys ar y gwasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi nodi y bwriedir iddynt gyflawni ei gylch gwaith unigol wedi'i gynnwys yn ei IPS.

[34] Ymateb SSMT, t2.
[35] Ymateb yr RNIB, t1.
[36] Ymateb IBT/Prifysgol Leeds, t.2.
[37] Paragraff 4.10 yr ymgynghoriad.
[38] Paragraff 4.11 yr ymgynghoriad.
[39] Paragraff A1.20 y Datganiad.
[40] Paragraffau A1.18 – A1.20 y Datganiad

3.11 Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan SSMT a'r RNIB y dylem ystyried 'cyfraniad arwyddocaol' yn nhermau: (i) darparu genres cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus craidd ac ansawdd a darpariaeth cynnwys newydd (SSMT); a (ii) amlder a chysondeb cynnwys sy'n adlewyrchu bywydau a phrofiadau pobl anabl (RNIB), nodwn fod y Ddeddf Cyfryngau wedi cyflwyno cylch gwaith diwygiedig i PSBs sydd, ymysg pethau eraill, yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu:

- cynnwys sy’n bodloni anghenion a diddordebau cynifer o gynulleidfaoedd gwahanol ag sy’n ymarferol;
- digon o gynnwys sy’n adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a thraddodiadau diwylliannol yn y DU;
- amrywiaeth a lefel briodol o gynnwys cynhyrchu annibynnol a gwreiddiol, yn ogystal ag amrywiaeth briodol o genres.

3.12 Gyda'i gilydd, mae gan y PSBs rôl bwysig yn gwneud a chomisiynu mathau o raglenni sydd naill ai ddim ar gael yn unman arall neu sydd ar gael dim ond i raddau cyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r model a ddilynir gan PSBs unigol yn debygol o amrywio a mater i bob PSB, yn hytrach nag i Ofcom, yw nodi ei ddull gweithredu yn ei SoPP.

3.13 Mae ein canllawiau SoPP yn nodi y gallai SoPPs gynnwys esboniad o unrhyw dargedau cynulleidfa mae’r PSB yn ceisio eu cyrraedd yn gyffredinol, fel grwpiau demograffig penodol, a sut bydd dewis PSB o wasanaethau perthnasol (gan gynnwys yr IPS) yn ei helpu i gyrraedd amrywiaeth o gynulleidfaoedd.[41] Hefyd dylai PSBs nodi yn eu SoPPs sut byddant yn defnyddio pob un o'u gwasanaethau i gyfrannu at y gofynion “cymunedau a diddordebau diwylliannol” ac “ystod o genres” yng nghylch gwaith cyffredinol y PSBs.[42] Yn unol â hyn, rydyn ni wedi nodi'n glir yn y Datganiad y byddwn yn ystyried yn ofalus i ba raddau y mae'r cynnwys ar y gwasanaethau perthnasol y mae PSBs wedi'u nodi yn eu SoPPs wedi'i gynnwys ar IPS. Felly, rydyn ni wedi penderfynu peidio â gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r testun yn y Datganiad am Amod 1.

## Ein penderfyniad

3.14 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dulliau arfaethedig o benderfynu a yw'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith unigol y PSB, fel y nodir isod.

| **Dulliau o benderfynu ynghylch cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith unigol y PSB** |
| --- |
| Byddwn yn defnyddio’r dulliau canlynol wrth benderfynu a yw’r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu’n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith unigol y PSB:<br>a) Byddwn yn ystyried arwyddocâd yng nghyd-destun cylch gwaith unigol pob PSB.<br>b) Byddwn yn ystyried yn benodol i ba raddau y bydd y cynnwys y mae’r PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol yn cael ei gynnwys ar yr IPS. |

[41] Paragraff 2.14 o’r SoPP arweiniad
[42] Paragraff 2.34 a 2.44 o’r SoPP arweiniad

c) Rydyn ni'n disgwyl y bydd y darparwr IPS yn cynnwys ar yr IPS yr holl gynnwys ar y gwasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'u nodi yn ei SoPP y bwriedir iddynt gyflawni ei gylch gwaith unigol.

d) Pan fydd darparwr IPS yn gwneud cais i ddynodi ail IPS neu IPS arall a fyddai'n ceisio bodloni anghenion a diddordebau cynulleidfa benodol, dylai'r darparwr IPS gynnwys ar yr IPS hwn yr holl gynnwys y mae'r PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni'r agweddau ar ei gylch gwaith unigol sy'n berthnasol i'r gynulleidfa benodol honno.

# Amod 2: Hyrwyddo a gallu canfod cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus (PSR)

## Yr hyn a ddywedon ni

3.15 Yn yr ymgynghoriad,[43] roedden ni'n cynnig defnyddio'r dulliau canlynol wrth benderfynu a yw'r cynnwys PSR sydd wedi'i gynnwys ar yr IPS yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth (Amod 2):

- Byddwn yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynir gan ddarparwyr IPS sy'n egluro sut y bydd yn sicrhau bod cynnwys PSR yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth fel a ganlyn:
  a) sut y bydd cynnwys PSR yn cael ei lleoli mewn mannau gyda lefelau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel yr IPS fel bod sylw cynulleidfaoedd at y cynnwys hwn yn debygol o gynyddu o'i gymharu â chynnwys nad yw'n PSR;
  b) sut y bydd ei ddull o guradu (wedi'i arwain yn olygyddol a/neu algorithmig) yn helpu i hyrwyddo a sicrhau ei bod yn hawdd canfod cynnwys PSR.
- Er mwyn bodloni Amod 2, rydyn ni'n credu bod yn rhaid i ddarparwyr IPS hyrwyddo a sicrhau ei bod yn hawdd canfod y canlynol mewn mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau traffig uchel eraill yr IPS:
  a) amrywiaeth eang o gynnwys PSR sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu;
  b) cynnwys newyddion a materion cyfoes.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.16 Yn eu hymatebion i'n cynigion ar gyfer Amod 2, roedd y PSBs yn rhybuddio'n gyffredinol na ddylai Ofcom fabwysiadu dull rhy ragnodol, gydag ITV yn pwysleisio'r angen i ddeall pob IPS PSB yn unigol.[44] Nododd rhanddeiliaid eraill y dylai Ofcom sicrhau ei fod yn ystyried buddiannau'r rhai nad ydynt yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n cystadlu â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[45] Yn ogystal â'r sylwadau cyffredinol hyn, cawsom rywfaint o adborth penodol ar rai meysydd yr ydyn ni'n eu hystyried ac yn ymateb iddynt isod.

[43] Paragraff 4.32 yr ymgynghoriad.
[44] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.5.
[45] Ymateb Warner Bros Discovery, t.1.

## Ystyr gallu canfod a threfnu rhaglenni llai poblogaidd rhwng rhaglenni poblogaidd

3.17 Nododd ITV ein bod ni yn ein hymgynghoriad wedi cyfeirio at ystyr gallu canfod yr oedden ni wedi'i nodi yn ein Datganiad ar Drwydded Weithredu newydd y BBC[46] ac wedi dweud ein bod yn credu bod gallu canfod yn golygu galluogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i gynnwys PSR ar yr IPS sy'n newydd iddynt ac a allai fod o ddiddordeb iddynt a/neu na fyddent yn dod ar ei draws fel arall o bosib.[47] Dywedodd ITV fod ein hystyr arfaethedig yn gyfyngol heb fod angen ac y gallai atal hyrwyddo cynnwys sydd fwyaf poblogaidd neu y maen nhw wedi'i wylio o'r blaen. Rhybuddiodd ITV rhag ceisio atgynhyrchu'r cysyniad llinol o drefnu rhaglenni llai poblogaidd rhwng rhaglenni poblogaidd ('hammocking'[48]) mewn oes ddigidol, gan ddweud y gallai hynny arwain at gynulleidfaoedd yn symud i wasanaethau sy'n dod â'r cynnwys maen nhw eisiau ei wylio i'r amlwg yn haws. Dywedodd ITV hefyd fod yr ystyr roeddem wedi'i roi i 'allu canfod' yn yr ymgynghoriad wedi cael ei greu at ddibenion ein gwaith o reoleiddio perfformiad y BBC ac nad yw dull gweithredu 'un ateb i bawb' yn briodol.[49]

## Ein hymateb

3.18 Mewn ymateb i bwynt ITV bod ystyr gallu canfod a nodir yn yr ymgynghoriad yn gyfyngol yn ddiangen, rydyn ni'n nodi bod y Ddeddf Cyfryngau yn mynnu'n benodol bod cynnwys PSR ar yr IPS yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo.[50] Fel yr oedden ni wedi'i ddweud yn yr ymgynghoriad, credwn fod hyrwyddo yn y cyd-destun hwn yn golygu cymryd camau i dynnu sylw cynulleidfaoedd yn fwy at gynnwys PSR ar yr IPS er mwyn iddynt allu dod o hyd iddo'n hawdd, a'i wylio.[51] Mae hyn yn golygu'r holl gynnwys PSR a allai fod o ddiddordeb i gynulleidfaoedd ac felly nid yw wedi'i gyfyngu i gynnwys PSR sy'n newydd iddynt.

3.19 Nid ydyn ni'n derbyn awgrym ITV bod ystyr gallu canfod y cyfeiriwyd ato yn yr ymgynghoriad yn amhriodol yn yr amgylchiadau hyn. Wrth ddisgrifio'r hyn rydyn ni'n credu mae gallu canfod yn ei olygu yng nghyd-destun Amod 2, roedden ni wedi cyfeirio at ddull eang, heb fod yn rhagnodol roedden ni hefyd wedi'i nodi yn ein Datganiad ar Drwydded Weithredu'r BBC. Nid ydyn ni'n credu bod angen i'r PSBs gwahanol fabwysiadu dull gweithredu union yr un fath o ran gallu canfod cynnwys PSR ac rydyn ni'n credu bod y dull gweithredu a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad yn rhoi'r hyblygrwydd hwn i PSBs.

3.20 O ran sylwadau ITV am drefnu rhaglenni llai poblogaidd rhwng rhaglenni poblogaidd, rydyn ni'n cytuno nad yw hyn yn berthnasol yn yr un ffordd ar IPS lle mae cynulleidfaoedd yn dewis eu cynnwys ar-alw neu'n dilyn argymhellion sy'n cael eu sbarduno gan algorithmau, fel y mae ar wasanaeth llinol. Ond fel yr oedden ni wedi'i esbonio yn yr ymgynghoriad,[52] rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod PSBs yn sicrhau bod cynulleidfaoedd sy'n defnyddio IPS yn dal yn gweld ystod eang o gynnwys PSR.

---

[46] Ofcom, 2023, Datganiad:Moderneiddio Trwydded Weithredu'r BBC, t.20.
[47] Paragraff 4.17 yr ymgynghoriad.
[48] Mae trefnu rhaglenni llai poblogaidd rhwng rhaglenni poblogaidd ('hammocking') yn cyfeirio at raglen sydd â manteision cymdeithasol penodol (fel y newyddion) yn cael ei hamserlennu rhwng rhaglenni poblogaidd iawn gyda'r bwriad o gynyddu ei chynulleidfa.
[49] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.10.
[50] Adran 362AA(3)(b) a 362AA(4)(b) o'r Ddeddf.
[51] Paragraff 4.17 yr ymgynghoriad.
[52] Paragraff 4.18 yr ymgynghoriad.

## Gwybodaeth i gefnogi honiadau ynghylch hyrwyddo a gallu canfod cynnwys PSR

3.21 Roedd IBT/Prifysgol Leeds yn credu nad oedd y Datganiad drafft yn rhoi digon o eglurder ynghylch y data y byddem ei angen gan ddarparwyr IPS i fodloni ein hunain bod Amod 2 wedi'i fodloni, gan awgrymu bod angen rhagor o wybodaeth ynghylch sut byddai PSBs yn tracio'r gwaith o hyrwyddo rhaglenni, yn gwerthuso effaith y camau a gymerwyd ac yn adrodd ar eu canfyddiadau. Gofynnodd IBT/Prifysgol Leeds hefyd pa dystiolaeth a data y byddwn eu hangen gan ddarparwyr IPS mewn perthynas â diffinio 'mannau traffig uchel' yr IPS. Roedden nhw'n awgrymu y dylai darparwyr IPS orfod cyhoeddi data i gefnogi honiadau o hyrwyddo a gallu canfod, gan gynnwys data a ddefnyddir i ddiffinio mannau traffig uchel, i wella atebolrwydd a hwyluso craffu annibynnol, a metrigau arfaethedig y gellid eu defnyddio at y diben hwn.[53] Ar y llaw arall, tynnodd ITV a Channel 5 sylw at yr angen i ystyried natur ddeinamig rhai mannau traffig uchel rhyngwynebau defnyddwyr IPS, y nododd Channel 5 y byddant yn newid drwy gydol y flwyddyn ac y gallai digwyddiadau cenedlaethol neu fyd-eang ddylanwadu arnynt.[54]

3.22 Roedd IBT/Prifysgol Leeds yn argymell bod Ofcom yn datblygu 'metrig clir a thryloyw ar gyfer mesur amlygrwydd y mae'n rhaid i'r PSBs lynu wrtho' er mwyn bodloni Amod 2. Er enghraifft, roedden nhw'n tynnu sylw at y ffaith y gallai Ofcom ddatblygu sgôr amlygrwydd ar sail data defnyddwyr a ddarperir gan y PSBs.[55] Fodd bynnag, rhybuddiodd ITV yn erbyn dull gorfodol o fesur 'hyrwyddo' neu 'amlygrwydd' tra bo'r farchnad yn newid. Roedd ITV yn dadlau y byddai dulliau mesur yn datblygu dros amser.[56]

3.23 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.8 uchod, dywedodd IBT/Prifysgol Leeds hefyd, er mwyn asesu'r meini prawf dynodi yn effeithiol, y dylai Ofcom ofyn am wybodaeth am ddyluniad a gweithrediad yr IPS gan gynnwys y gwerthoedd, yr egwyddorion a'r blaenoriaethau sy'n sail i ddatblygu a defnyddio algorithmau a systemau argymell.[57]

# Ein hymateb

3.24 Rydyn ni'n cytuno ag IBT/Prifysgol Leeds y byddem yn disgwyl i ddarparwyr IPS ddarparu data perthnasol i gefnogi unrhyw honiad bod cynnwys PSR yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS – rydyn ni'n credu bod hyn yn debygol o fod yn rhan bwysig o'r 'wybodaeth' sydd wedi'i chynnwys mewn cais i esbonio sut mae Amod 2 yn cael ei fodloni.[58] Credwn y byddai'n ddefnyddiol bod yn glir ar y pwynt hwn cyn i ddarparwyr IPS ddechrau gwneud ceisiadau am ddynodiad. Rydyn ni felly wedi diwygio paragraff A1.23 y Datganiad i ddweud bod darparu gwybodaeth at ddibenion Amod 2 yn gorfod cael ei "gefnogi gan ddata perthnasol".[59]

3.25 Fodd bynnag, gan fod hwn yn faes rheoleiddio newydd sy'n datblygu, nid ydyn ni'n credu y byddai'n ddefnyddiol pennu metrig sefydlog yn y Datganiad i asesu ceisiadau am ddynodiad yn ei erbyn. Wrth i IPS barhau i ddatblygu, bydd PSBs, fel pob darparwr, yn parhau i arbrofi

[53] Ymateb IBT/Prifysgol Leeds, tt.3 - 7.
[54] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.13; ymateb Channel 5, t.3.
[55] Ymateb IBT/Prifysgol Leeds, tt.6-7.
[56] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.11.
[57] Ymateb IBT/Prifysgol Leeds, tt.2-3.
[58] Fel y bo'n ofynnol o dan baragraff A1.23 y Datganiad.
[59] Paragraff A1.23 y Datganiad.

â gwahanol ffyrdd o sicrhau bod modd canfod cynnwys ar eu IPS. O ystyried hyn, rydyn ni'n cytuno ag ITV y gallai fod angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran mesur.

3.26 Serch hynny, fel yr esboniwyd yn yr ymgynghoriad,[60] dylai ceisiadau gynnwys disgrifiad o natur yr IPS, gan gynnwys gwybodaeth am ei ddyluniad a'i weithrediad, a bydd hyn yn cael ei nodi ar y ffurflen gais ar gyfer darparwyr IPS, a fydd yn cael ei chyhoeddi gennym yn nes ymlaen eleni. Byddem yn disgwyl i wybodaeth o'r fath gynnwys disgrifiad o'r nodau a'r blaenoriaethau sy'n sail i ddull darparwr IPS o guradu. Unwaith eto, fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod y byddai'n ddefnyddiol sicrhau bod hyn yn glir i ddarparwyr IPS cyn iddynt wneud ceisiadau am ddynodiad. Felly, rydyn ni wedi diwygio paragraff A1.23(b) y Datganiad i ofyn am wybodaeth am ddull darparwr IPS o guradu "a'r nodau a'r blaenoriaethau sy'n sail i'r dull hwnnw".[61]

## Cynnwys newyddion a materion cyfoes

3.27 Roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu'r pwyslais ar newyddion a materion cyfoes yn ein cynigion.[62] Dywedodd S4C fod y sail statudol yr oedd Ofcom yn blaenoriaethu newyddion a materion cyfoes arni yn aneglur. Roedd yn mynegi pryderon y gallai ein gofyniad arfaethedig i hyrwyddo newyddion a materion cyfoes ddod ar draul genres eraill sydd â'r nod o ehangu apêl ei raglenni eraill a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.[63] Dywedodd ITV fod y gofyniad i hyrwyddo cynnwys newyddion a materion cyfoes, a'i gwneud yn hawdd i ddefnyddwyr IPS ddod o hyd iddo, yn ofyniad ychwanegol ac anstatudol.[64]

3.28 Tynnodd S4C sylw at y ffaith fod nifer o 'ffactorau cyfrannol' a fyddai'n golygu bod polisi i hyrwyddo newyddion a materion cyfoes mewn mannau traffig uchel ar yr IPS yn amhriodol i S4C ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys argaeledd cyfyngedig y rhaglen newyddion bob nos a gynhyrchir gan BBC Cymru Wales, sydd ond ar gael iddo am hyd at 24 awr ar ôl ei darlledu. Ar ben hynny, eglurodd S4C fod ei brif wasanaeth newyddion yn cael ei ddarparu'n bennaf drwy wasanaeth testun digidol sy'n bodoli yn ei ap/gwefan ei hun, ac felly na fyddai'n addas ar gyfer ei IPS. Dywedodd S4C hefyd mai nifer cyfyngedig o raglenni materion cyfoes sy'n rhoi sylw i straeon newydd sydd ganddo, sy'n golygu bod gofyniad i hyrwyddo'r cynnwys hwn mewn mannau traffig uchel yn anghymesur.[65]

3.29 Nododd Channel 5 fod trosi ei gynnig newyddion llinol i'w IPS yn waith sy'n mynd rhagddo a nododd nad oes model arferion gorau ar hyn o bryd y gallem gyfeirio ato wrth asesu newyddion a materion cyfoes at ddibenion dynodi. Fodd bynnag, dywedodd Channel 5 hefyd ei fod ar hyn o bryd yn asesu sut gallai hyrwyddo newyddion a materion cyfoes yn well ar ei IPS mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r gwasanaeth, ac a fyddai'n bodloni disgwyliadau ei gynulleidfa.[66]

# Ein hymateb

3.30 Mewn perthynas â chwestiynau gan S4C ac ITV am y sail statudol ar gyfer ein cynnig i fynnu bod cynnwys newyddion a materion cyfoes yn cael ei hyrwyddo ac yn hawdd ei ganfod,

[60] Paragraff 5.1 yr ymgynghoriad.
[61] Paragraff A1.23(b) y Datganiad.
[62] Ymateb STV, t.7, ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol tt.13-14; ymateb S4C, t.2.
[63] Ymateb S4C, t.2.
[64] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, tt.13-14.
[65] Ymateb S4C, tt.2-3.
[66] Ymateb Channel 5, t.3.

mae'r Ddeddf yn rhoi disgresiwn i Ofcom nodi'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth benderfynu a yw Amod 2 yn cael ei fodloni.[67] Roedden ni wedi nodi yn ein hymgynghoriad mai un o'r ffactorau roedden ni'n cynnig ei ystyried yn ein hasesiad yw a yw cynnwys PSR sy'n arbennig o bwysig i gynulleidfaoedd yn cael ei hyrwyddo ac yn hawdd ei ganfod ar yr IPS.[68]

3.31 Mae cynnwys newyddion a materion cyfoes wrth galon system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM) y DU. Fel yr oedden ni wedi'i egluro yn yr ymgynghoriad,[69] mae cynulleidfaoedd yn credu mai darparu newyddion dibynadwy a chywir yw cyfraniad pwysicaf PSBs at y system honno.[70] Mae pob PSB eisoes yn cynnwys rhyw fath o gynnwys newyddion a materion cyfoes ar eu IPS sydd naill ai'n cael ei ffrydio'n fyw neu ar-alw, ac mae ymchwil Ofcom yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gwylio mwy a mwy o gynnwys newyddion sy'n cael ei ddarparu gan y PSBs drwy eu IPS.[71] Felly, rydyn ni'n dal yn credu bod yn rhaid i ddarparwyr IPS hyrwyddo cynnwys newyddion a materion cyfoes a sicrhau ei fod yn hawdd ei ganfod ar eu IPS er mwyn bodloni Amod 2.

3.32 Nodwn ddadleuon S4C ynghylch hyrwyddo cynnwys newyddion a materion cyfoes ar ei IPS. Rydyn ni'n cydnabod bod gan bob PSB gynnig newyddion gwahanol ac rydyn ni'n disgwyl y bydd y dull addas o hyrwyddo'r math hwn o gynnwys yn amrywio. Yn hyn o beth, rydyn ni'n cytuno â Channel 5 nad oes model arferion gorau ar hyn o bryd ar gyfer asesu a yw dull arfaethedig darparwr IPS o ymdrin â chynnwys newyddion a materion cyfoes yn bodloni Amod 2. Byddwn yn ystyried y rhesymeg y mae darparwyr IPS yn ei nodi yn eu cais dros eu dull arfaethedig wrth asesu a yw'r gofyniad i gynnwys newyddion a materion cyfoes gael ei hyrwyddo a bod yn hawdd ei ganfod wedi cael ei fodloni.

## Pennu genres a chynnwys i'w hyrwyddo a sicrhau eu bod yn hawdd eu canfod ar yr IPS

3.33 Yn ogystal â newyddion a materion cyfoes, gofynnodd IBT/Prifysgol Leeds i ni fod yn fwy penodol am elfennau cylch gwaith cyffredinol y PSBs y dylai darparwyr IPS eu hyrwyddo a sicrhau eu bod yn hawdd eu canfod ar eu IPS, gan gynnwys y gofyniad bod darparwyr IPS yn gwneud hyn ar gyfer 'amrywiaeth briodol o genres'[72] er mwyn annog pobl i wylio amrywiaeth o genres.[73]

3.34 Awgrymodd yr RNIB, at ddibenion ein hasesiad o Amod 2, y dylem ystyried hyrwyddo cynnwys sy'n gysylltiedig ag anabledd mewn meysydd traffig uchel ar yr IPS.[74]

3.35 Dywedodd SSMT ei fod yn croesawu ein strategaethau arfaethedig y gall darparwyr IPS eu defnyddio i gyfeirio traffig tuag at eu IPS, neu i roi sylw i gynnwys PSR ar eu IPS. Fodd bynnag, roedden nhw hefyd yn cyfeirio at yr hyn roedden nhw'n ei ystyried yn ddiffygion yn

[67] Adran 362AC(1) o'r Ddeddf.
[68] Paragraffau 4.16 a 4.22 - 4.29 yr ymgynghoriad.
[69] Paragraffau 4.27 - 4.28 yr ymgynghoriad.
[70] Edrychwch hefyd ar ein hadolygiad diweddaraf o PSM
[71] Fel y gwelir yn ein Harolwg Cael Gafael ar Newyddion 2025 , dywedodd pedwar o bob deg (40%) sy'n gwylio newyddion sy'n cael ei ddarlledu neu ar wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr eu bod yn defnyddio gwasanaethau ar-alw PSBs ar gyfer newyddion, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (43%).
[72] Adran 264(6) o'r Ddeddf.
[73] Ymateb IBT/Prifysgol Leeds, t.4.
[74] Ymateb y RNIB, t1.

ein cynigion o ran hyrwyddo a gallu canfod cynnwys sy'n ymwneud â genres PSM craidd, gan gynnwys crefydd neu gred.[75]

## Ein hymateb

3.36 Rydyn ni'n cytuno â rhanddeiliaid y dylai'r dull a ddefnyddir gan ddarparwyr IPS o ran hyrwyddo cynnwys PSR a sicrhau ei fod yn hawdd ei ganfod alluogi cynulleidfaoedd i ddod o hyd i amrywiaeth eang o gynnwys a allai fod o ddiddordeb iddynt. Fel yr oedden ni wedi'i esbonio yn yr ymgynghoriad, mae PSBs yn rhan ganolog o ddarparu cymysgedd eang o gynnwys sy'n adlewyrchu'r DU gyfan ac yn apelio at ystod eang o gynulleidfaoedd.[76]

3.37 Mae'r dulliau a nodir yn y Datganiad yn mynnu bod darparwyr IPS yn hyrwyddo amrywiaeth eang o gynnwys PSR sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, ac yn sicrhau ei fod yn hawdd ei ganfod.[77] Mae 'amrywiaeth amrywiol' o gynnwys PSR yn cynnwys amrywiaeth o genres. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.12 uchod, mater i bob PSB, yn hytrach nag i Ofcom, yw nodi ei ddull o gyflawni'r cylch gwaith yn ei SoPP. Os yw cynnwys wedi'i ddarparu ar yr IPS ac yn cyfrannu at gyflawni cylch gwaith unigol PSB, bydd yn gynnwys PSR ac felly byddai angen ei hyrwyddo a sicrhau ei fod yn hawdd ei ganfod ym mannau traffig uchel yr IPS. Am y rhesymau hyn, nid ydyn ni'n credu ei bod yn briodol gosod disgwyliadau mwy penodol yn y Datganiad ynghylch yr amrywiaeth o genres neu fathau o gynnwys y dylid eu hyrwyddo a sicrhau eu bod yn hawdd eu canfod – ac eithrio newyddion a materion cyfoes fel y trafodir uchod – er mwyn bodloni Amod 2.

## Ein penderfyniad

3.38 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, ac am y rhesymau a esbonnir ym mharagraffau 3.24 a 3.26 uchod, rydyn ni wedi penderfynu newid y Datganiad ym mharagraff A1.23 o dan Amod 2, lle byddwn yn ychwanegu cyfeiriad at y canlynol: (i) darparu "data perthnasol" sy'n cefnogi gwybodaeth am sut bydd cynnwys PSR yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS; a (ii) y "nodau a'r blaenoriaethau" sy'n sail i ddull darparwyr IPS o guradu.

3.39 Mae newidiadau cyfatebol wedi cael eu gwneud i'r adran IPS yn y canllawiau SoPP,[78] lle rydyn ni'n nodi'r wybodaeth y gallai PSBs ei chynnwys yn eu Cynlluniau SoPP at ddibenion ein penderfyniad ar Amod 2.

| **Dulliau o benderfynu a yw cynnwys PSR yn cael ei hyrwyddo ac yn hawdd ei ganfod** |
| --- |
| Byddwn yn defnyddio'r dulliau canlynol wrth benderfynu a yw'r cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys ar yr IPS yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth:<br><br>Byddwn yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynir gan ddarparwyr IPS sy'n egluro sut y bydd yn sicrhau bod cynnwys PSR yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth, **wedi'i hategu gan ddata perthnasol**, am y canlynol: |

[75] Ymateb SSMT, t6.
[76] Paragraff 4.25 yr ymgynghoriad; Ofcom, Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23), t. 10.
[77] Paragraff A1.24(a) y Datganiad.
[78] Paragraff 2.50 y canllawiau SoPPs.

a) sut y bydd cynnwys PSR yn cael ei leoli mewn mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau traffig uchel eraill yr IPS fel bod sylw cynulleidfaoedd at y cynnwys hwn yn debygol o gynyddu o'i gymharu â chynnwys nad yw'n gynnwys PSR;

b) sut y bydd ei ddull o guradu (wedi'i arwain yn olygyddol a/neu'n algorithmig), **a'r nodau a'r blaenoriaethau sy'n sail i'r dull hwnnw**, yn helpu i hyrwyddo cynnwys PSR a'i wneud yn hawdd ei ganfod.

Er mwyn bodloni Amod 2, rydyn ni'n credu bod yn rhaid i ddarparwyr IPS hyrwyddo a sicrhau ei bod yn hawdd canfod y canlynol mewn mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau traffig uchel eraill yr IPS:

a) amrywiaeth eang o gynnwys PSR sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu;

b) cynnwys newyddion a materion cyfoes.

# Trin cynnwys nad yw'n gynnwys PSR

## Yr hyn a ddywedon ni

3.40 Yn yr ymgynghoriad, roedden ni'n cynnig, mewn achosion lle mae darparwr IPS yn bwriadu cynnig cynnwys nad yw'n gynnwys PSR ar yr IPS, y dylai egluro sut bydd yn gwneud yn siŵr nad yw hynny'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo cynnwys PRS a'r gallu i'w ganfod yn hawdd. Roedden ni hefyd yn cynnig y dylai'r mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau traffig uchel eraill yr IPS gynnig cynnwys PSR yn bennaf er mwyn bodloni Amod 2.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.41 Roedd nifer o ymatebwyr wedi gwneud sylwadau am ein dull gweithredu ar gyfer cynnwys nad yw'n gynnwys PSR yn y cynigion. Pwysleisiodd ITV ac STV bwysigrwydd gallu integreiddio cynnwys PSR a chynnwys nad yw'n gynnwys PSR ar yr IPS, a hyrwyddo amrywiaeth eang o gynnwys.[79] Nododd C4C, ochr yn ochr â hyrwyddo amrywiaeth eang o gynnwys PSR, fod angen iddo hefyd allu hyrwyddo ei 'gynnwys ffrydio deniadol a chystadleuol'.[80]

3.42 Mynegodd ITV bryderon hefyd am y cynnig yn y Datganiad na ddylai hyrwyddo cynnwys nad yw'n gynnwys PSR gael effaith niweidiol ar hyrwyddo cynnwys PSR,[81] a dywedodd fod hyrwyddo cynnwys nad yw'n gynnwys PSR (er enghraifft cynnwys y tu ôl i wal dalu) a'r hyn roedd yn ei alw'n gynnwys 'PSR-lite' (fel ailddarllediadau sydd ar gael am ddim neu gynnwys wedi'i brynu) wedi arwain at gynnydd yn lefelau gwylio cynnwys PSR, gan gynnwys genres allweddol.[82] Dywedodd ITV fod ein dull gweithredu ar gyfer cynnwys nad yw'n gynnwys PSR yn cynrychioli 'camddealltwriaeth sylfaenol' o ffurf IPS nawr a'i ffurf bosib yn y dyfodol.[83]

3.43 Roedd STV yn credu bod y gofynion arfaethedig yn y Datganiad[84] yn gosod safon uchel, y byddai'n 'feichus' eu cyflawni ac yn mabwysiadu safbwynt deuaidd bod unrhyw gynnwys

[79] Ymateb STV, t.5, ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol tt.9-10.
[80] Ymateb C4C, t.3.
[81] Paragraff A1.26 y Datganiad.
[82] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.9.
[83] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.9.
[84] Paragraffau A1.23 ac A1.26 y Datganiad.

nad yw'n gynnwys PSR bob amser yn cael ei gyflwyno ar draul cynnwys PSR.[85] Yn yr un modd, dywedodd ITV ei bod yn ymddangos ein bod wedi dehongli bod 'hyrwyddo a hawdd ei ganfod' yn golygu bod yn rhaid cynyddu'r defnydd o gynnwys PSR o'i gymharu â'r defnydd o gynnwys nad yw'n gynnwys PSR, a oedd, meddai, yn camddeall rôl gwasanaeth hybrid fel ITVX.[86] Dywedodd ITV hefyd y byddai mynnu eu bod yn tynnu sylw cynulleidfaoedd oddi wrth gynnwys premiwm yn llesteirio ei allu i lunio ITVX er budd ei gynulleidfa.[87]

3.44 Mynegodd ITV bryder hefyd nad yw nodweddion cyffredin sy'n cael eu gyrru gan algorithm ac sydd wedi'u dylunio i gefnogi dull personol sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa o bosib yn gydnaws â'r gofyniad 'dim effaith niweidiol'. Cyfeiriodd ITV at enghraifft o danysgrifiwr premiwm a oedd yn ffafrio cynnwys sydd ar gael yn yr haen premiwm (y telir amdani) yn unig, sy'n debygol o weld mwy o'r cynnwys hwn yn ymddangos mewn unrhyw rannau o'r rhyngwyneb defnyddiwr sy'n cael eu gyrru gan algorithm.[88]

3.45 Ar y llaw arall, roedd Virgin Media O2 (Virgin) yn pwysleisio y dylai mantais amlygrwydd ar TSS sy'n cael ei reoleiddio o dan drefn y Ddeddf Cyfryngau ddod law yn llawn â gofyniad i IPS ddarparu cynnwys amrywiol ac eang sy'n cyfrannu at gylch gwaith unigol y PSB perthnasol.[89] Gofynnodd Virgin am ragor o graffu a mesurau diogelu ynghylch cynnwys nad yw'n gynnwys PSR ac, yn benodol, mynegodd bryderon ynghylch gwanhau cynnwys PSR o ganlyniad i osod cynnwys nad yw'n gynnwys PSR ar IPS, gan gynnwys deunydd trydydd parti. Ar ôl ei ddynodi, roedd Virgin yn poeni y gallai'r IPS weithredu fel math o 'geffyl Trojan', gan ganiatáu i gynnwys a gwasanaethau nad ydynt yn rhai PSR gael amlygrwydd gormodol yn groes i ddiben a bwriad y drefn a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cyfryngau, a gyda'r potensial i 'niweidio'n sylweddol' RTSS a gweithredwyr teledu drwy dalu.[90]

3.46 Dywedodd IBT/Prifysgol Leeds nad oedd yn glir o'n cynigion sut byddai PSBs yn gwahaniaethu rhwng cynnwys PSR a chynnwys nad yw'n gynnwys PSR, ac y dylem egluro pa fathau o gynnwys sy'n bodloni'r diffiniad.[91]

## Ein hymateb

3.47 Mae'n bwysig bod yn glir nad yw'r ddeddfwriaeth na'n cynigion yn atal cynnwys nad yw'n gynnwys PSR (a all olygu cynnwys y telir amdano) rhag cael ei gynnig, ei hyrwyddo na bod yn hawdd ei ganfod ar IPS. Nid ydyn ni chwaith yn credu y bydd cyflwyno unrhyw gynnwys nad yw'n gynnwys PSR ynddo'i hun yn niweidio cynnwys PSR.

3.48 Yn hytrach, fel y nodwyd gan rai rhanddeiliaid, bwriad ein dull yw cydnabod bod yn rhaid i gynnwys nad yw'n gynnwys PSR ar IPS fod yn gyson ag amcan cyffredinol y drefn newydd, sef bod cynulleidfaoedd yn gallu canfod a chael gafael yn hawdd ar gynnwys sy'n cyfrannu at gyflawni cylchoedd gwaith PSB.

3.49 Mae ein Datganiad yn mynnu bod darparwyr IPS sy'n bwriadu cynnig cynnwys nad yw'n gynnwys PSR ar yr IPS egluro sut y bydd yn gwneud yn siŵr nad yw hynny'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo cynnwys PSR a sicrhau ei fod yn hawdd ei ganfod. Nid yw hyn yn atal defnyddio nodweddion sy'n cael eu gyrru gan algorithm i gefnogi dull personol, a allai olygu

[85] Ymateb STV, t5.
[86] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.9.
[87] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.10.
[88] Ymateb ITV nad yw'n gyfrinachol, t.12.
[89] Ymateb Virgin nad yw'n gyfrinachol, t.4.
[90] Ymateb Virgin nad yw'n gyfrinachol, t.5.
[91] Ymateb IBT/Prifysgol Leeds, t.3.

hyrwyddo cynnwys nad yw'n gynnwys PSR mewn mannau traffig uchel, ac nid yw'n cyfyngu ar faint o gynnwys nad yw'n gynnwys PSR y gellir ei gynnig ar IPS. Fodd bynnag, mae'n mynnu bod darparwyr yn gallu dangos nad yw cynnwys nad yw'n gynnwys PSR yn effeithio ar hyrwyddo cynnwys PSR a sicrhau ei fod yn hawdd ei ganfod, gan olygu nad yw Amod 2 yn cael ei fodloni mwyach. O ran a yw'r dull a ddefnyddir gan ddarparwr unigol yn ddigonol i wneud hynny, bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol ym mhob achos.

3.50 Mewn ymateb i'r pwynt a wnaed gan IBT/Prifysgol Leeds, mae cynnwys PSR yn cael ei ddiffinio yn y ddeddfwriaeth fel deunydd sydd wedi'i gynnwys ar IPS sy'n cyfrannu at gyflawni cylch gwaith unigol PSB trwyddedig neu S4C.[92] Mae cynnwys y mae PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni ei gylch gwaith yn cael ei ddiffinio'n fras gan y Senedd y DU yn adran 264 o'r Ddeddf. Mater i'r PSBs yw nodi yn eu Cynllun SoPP y cynnwys maen nhw'n bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni eu cylchoedd gwaith unigol.

## Ein penderfyniad

3.51 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dulliau arfaethedig ar gyfer trin cynnwys nad yw'n gynnwys PSR.

| Dulliau o benderfynu ar sut mae cynnwys nad yw'n gynnwys PSR yn cael ei drin |
|---|
| Mewn achosion lle mae darparwr IPS yn bwriadu cynnig cynnwys nad yw'n gynnwys PSR ar yr IPS, dylai egluro sut bydd yn gwneud yn siŵr nad yw hynny'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo cynnwys PSR a sicrhau ei fod yn hawdd ei ganfod.<br><br>Dylai'r mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau traffig uchel eraill yr IPS gynnig cynnwys PSR yn bennaf er mwyn bodloni Amod 2. |

# Priodoldeb dynodi IPS

## Yr hyn a ddywedon ni

3.52 Yn yr ymgynghoriad,[93] roedden ni'n cynnig defnyddio'r dulliau canlynol i benderfynu a yw'n briodol dynodi IPS:

a) Byddwn yn ystyried cynigion yng Nghynlluniau SoPP y PSB ynghylch y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB;
b) Byddwn yn ystyried gwybodaeth yng Nghynlluniau SoPP y PSB ynghylch sut y bydd yr IPS yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion a diddordebau cynifer o gynulleidfaoedd â phosib (neu gynulleidfa benodol, yn achos ail IPS neu IPS arall);
c) Byddwn yn adolygu gwybodaeth yn Adolygiadau SoPP y PSB i bennu pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro perfformiad yr IPS o ran cyflawni cylch gwaith unigol y PSB.
d) Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni, gan roi sylw i'n dyletswyddau statudol perthnasol.
e) Yn olaf, rydyn ni hefyd yn cynnig yr egwyddorion cyffredinol ym mharagraffau A1.37 i 1.40 y Datganiad o Ddulliau:

[92] Adran 362AA(12) o'r Ddeddf.
[93] Paragraff 4.45 yr ymgynghoriad.

i) Byddwn yn egluro pam rydyn ni wedi defnyddio dull penodol yn ein penderfyniadau dynodi a dirymu a sut mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r dulliau yn y Datganiad o Ddulliau.

ii) Fodd bynnag, efallai y byddwn yn credu ei bod yn briodol gwyro oddi wrth y dulliau yn y Datganiad o Ddulliau. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn egluro pam.

iii) Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362AS y Ddeddf i lywio ein penderfyniadau dynodi a dirymu.

iv) Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau dynodi a dirymu.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.53 Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n bennaf â'n dulliau arfaethedig o benderfynu a yw'n briodol dynodi ISP. Cawsom adborth penodol mewn perthynas ag anghenion cynulleidfaoedd a dynodi ail IPS neu IPS arall, sy'n cael sylw gennym isod.

### Anghenion y gynulleidfa

3.54 Tynnodd yr RNIB sylw at yr angen i Ofcom ystyried gofynion hygyrchedd wrth ystyried sut bydd yr IPS yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion a diddordebau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosib.[94] Pwysleisiodd S4C bwysigrwydd ystyried y gynulleidfa arfaethedig ar gyfer yr IPS.[95]

### Dynodi ail IPS neu IPS arall

3.55 Mynegodd rhai rhanddeiliaid bryderon ynghylch y posibilrwydd o ddarparwr IPS yn cael dynodiad ar gyfer mwy nag un IPS. Dywedodd [redacted] a Samsung y gallai fod yn dechnegol anodd a beichus darparu'r un lefel o amlygrwydd i bob IPS dynodedig ar RTSS.[96] Felly, roedden nhw'n gofyn am eglurhad ynghylch sut byddai Ofcom yn cymhwyso 'amlygrwydd priodol' wrth ddynodi ail IPS neu IPS arall.[97] Dywedodd Samsung hefyd y dylai Ofcom egluro y gellir gwahaniaethu rhwng yr hyn y dylai 'amlygrwydd priodol' ei olygu i'r 'prif' IPS mewn codau ymarfer yn y dyfodol. Mynegodd Virgin bryderon ynghylch y risg o orlenwi ar ryngwynebau defnyddwyr os bydd PSBs yn lansio mwy nag un IPS, a allai, yn eu barn nhw, gael ei wneud yn strategol i 'wthio' chwaraewyr nad ydynt yn rhai PSB sy'n cystadlu â nhw ymhellach i lawr y sgrin neu'r ddewislen. Dywedodd Virgin y gallai hyn effeithio ar gyfleoedd masnachol i ddarparwyr RTSS.[98]

3.56 Gofynnodd COBA hefyd am eglurder ynghylch y rôl y byddai'r diwydiant ehangach yn ei chwarae pan fyddai Ofcom yn ystyried dynodi IPS PSB ychwanegol a phwysleisiodd yr angen am ymgynghori i bwyso a mesur a yw'r farchnad eisoes yn darparu'r cynnwys arfaethedig.[99]

---

[94] Ymateb RNIB, t3.
[95] Ymateb S4C, t. 4.
[96] [redacted]; Ymateb Samsung, t.2.
[97] [redacted]
[98] Ymateb Virgin nad yw'n gyfrinachol, t.6.
[99] Ymateb COBA, t4.

## Ein hymateb

### Anghenion y gynulleidfa

3.57 Mewn perthynas â'r pwynt a godwyd gan yr RNIB ynghylch gofynion hygyrchedd, mae'r Ddeddf Cyfryngau yn cyflwyno gofynion hygyrchedd newydd yn y Ddeddf a fydd yn berthnasol i'r rhaglenni ar-alw a ddarperir gan IPS dynodedig.[100] Mae'r gofynion hyn yn cynnwys darparu is-deitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion, yn ogystal â sicrhau bod defnyddwyr anabl yn cael gwybodaeth ddigonol am y gwasanaethau mynediad sydd ar gael. Bydd yn rhaid i wasanaethau sydd o fewn y cwmpas hefyd adrodd i Ofcom ar ansawdd a defnyddioldeb eu gwasanaethau mynediad.

3.58 Gan fod gofynion hygyrchedd yn cael sylw ar wahân yn y Ddeddf, nid ydyn ni'n credu y byddai'n briodol cyflwyno gofynion hygyrchedd ychwanegol ar gyfer darparwyr IPS. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad,[101] wrth ystyried sut bydd IPS yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion a diddordebau cynifer o gynulleidfaoedd gwahanol â phosib, byddwn yn ystyried gwybodaeth yn SoPPs y PSB am y cynulleidfaoedd y bydd yr IPS yn eu targedu a/neu esboniad ynghylch sut bydd natur gyffredinol y rhaglenni ar yr IPS, a'r pynciau sy'n cael sylw ganddynt, yn darparu ar gyfer y cynulleidfaoedd hynny. Felly, rydyn ni'n cytuno ag S4C bod cynulleidfa arfaethedig yr IPS yn ystyriaeth bwysig yn hyn o beth.

### Dynodi ail IPS neu IPS arall

3.59 O dan y Ddeddf, bydd yn ofynnol i ddarparwyr RTSS roi lefel briodol o amlygrwydd i bob IPS dynodedig sydd wedi'u cynnwys ar eu RTSS. Rydyn ni'n nodi'r pryderon a godwyd gan [redacted] a Samsung mewn perthynas â darparwyr RTSS yn rhoi amlygrwydd priodol i fwy nag un IPS dynodedig. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried pan fyddwn yn bwriadu ymgynghori'n ddiweddarach eleni ar ein cod ymarfer a fydd yn disgrifio'r camau rydyn ni'n argymell bod darparwyr RTSS yn eu cymryd i gyflawni eu dyletswyddau amlygrwydd.[102]

3.60 Mewn ymateb i bryderon Virgin's ynghylch y risg o orlenwi'r rhyngwyneb defnyddiwr yn strategol os bydd PSBs yn lansio mwy nag un IPS, byddwn dim ond yn dynodi IPS os yw'n bodloni'r amodau a nodir yn y Ddeddf a'n bod yn credu ei bod yn briodol gwneud hynny.[103] Wrth ystyried priodoldeb yng nghyd-destun ail IPS neu IPS arall, mae'n rhaid i ni ystyried a yw'r cyfraniad arfaethedig at gylch gwaith unigol y PSB yn gallu bodloni anghenion a diddordebau cynulleidfa benodol.[104] Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethon ni egluro y byddem, at y diben hwn, yn ystyried gwybodaeth am bwy yw'r gynulleidfa benodol arfaethedig ac esboniad ynghylch sut bydd y rhaglenni ar yr IPS yn darparu ar gyfer anghenion a diddordebau'r gynulleidfa benodol honno.[105]

3.61 O ran sylw COBA ynghylch ymgynghori â'r diwydiant ehangach mewn perthynas â phenderfyniadau dynodi ar gyfer ail IPS neu IPS arall, fe wnaethon ni egluro yn yr

---

[100] Mae Adran 368HL o'r Ddeddf yn nodi gofynion hygyrchedd a fydd yn berthnasol i'r holl wasanaethau sy'n cael eu categoreiddio fel gwasanaethau 'Haen 1'. O dan Adran 368HA o'r Ddeddf, mae gwasanaeth rhaglenni ar-alw (ODPS) yn wasanaeth Haen 1 os yw'n cael ei ddefnyddio gan PSB, ar wahân i'r BBC, i gyfrannu at gyflawni ei gylch gwaith unigol.

[101] Paragraff 4.41 yr ymgynghoriad.

[102] Mae rhwymedigaeth Ofcom i gyhoeddi cod ymarfer mewn perthynas â dyletswyddau amlygrwydd darparwyr RTSS wedi'i nodi yn adran 362AP o'r Ddeddf.

[103] Adran 362AA(2) o'r Ddeddf.

[104] Adran 362AA(7)(b)(i) o'r Ddeddf.

[105] Paragraff 4.42 yr ymgynghoriad.

ymgynghoriad y byddwn yn ymgynghori ar ein penderfyniadau dynodi arfaethedig.[106] Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau dynodi mewn perthynas ag ail IPS neu IPS arall darparwr IPS.

[106] Paragraffau 5.6, 5.7 a 5.12 yr ymgynghoriad.

## Ein penderfyniad

3.62 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dulliau arfaethedig ar gyfer penderfynu a yw'n briodol dynodi IPS.

**Dulliau ar gyfer penderfynu a yw'n briodol dynodi IPS**

Byddwn yn defnyddio'r dulliau canlynol wrth benderfynu a yw'n briodol dynodi IPS:

a) Byddwn yn ystyried cynigion yng Nghynlluniau SoPP y PSB ynghylch y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB;

b) Byddwn yn ystyried gwybodaeth yng Nghynlluniau SoPP y PSB ynghylch sut y bydd yr IPS yn cael ei ddefnyddio i fodloni anghenion a diddordebau cynifer o gynulleidfaoedd â phosib (neu gynulleidfa benodol, yn achos ail IPS neu IPS arall);

c) Byddwn yn adolygu gwybodaeth yn Adolygiadau SoPP y PSB i bennu pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro perfformiad yr IPS o ran cyflawni cylch gwaith unigol y PSB.

d) Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol yn ein barn ni, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.

e) Yn olaf, rydyn ni hefyd yn cynnig yr egwyddorion cyffredinol canlynol ym mharagraffau A1.37 i 1.40 y Datganiad o Ddulliau:

i) Byddwn yn egluro pam rydyn ni wedi defnyddio dull penodol yn ein penderfyniadau dynodi a dirymu, a sut mae'r dull hwn yn gyson â'r dulliau yn y Datganiad o Ddulliau.

ii) Fodd bynnag, efallai y byddwn yn credu ei bod yn briodol gwyro oddi wrth y dulliau yn y Datganiad o Ddulliau. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn egluro pam.

iii) Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362AS o'r Ddeddf i lywio ein penderfyniadau dynodi a dirymu.

iv) Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau dynodi a dirymu.

# Y broses o wneud cais am ddynodiad IPS

## Yr hyn a ddywedon ni

3.63 Yn yr ymgynghoriad,[107] roedden ni'n cynnig y dylai darparwyr IPS sy'n dymuno gwneud cais i ddynodi eu IPS gyflwyno'r dogfennau a'r wybodaeth ganlynol i ni:

a) Y dogfennau SoPP diweddaraf gan y PSB perthnasol, sy'n cynnwys Cynllun SoPP gyda chynigion y PSB ar gyfer y flwyddyn ganlynol ynghyd â'i adolygiad o berfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol (Adolygiad SoPP);

b) Unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'n hasesiad o Amodau 1 a 2 nad yw wedi'i chynnwys yn y dogfennau SoPP diweddaraf gan y PSB perthnasol;

c) Mewn amgylchiadau lle nad yw'r darparwr IPS yn PSB, cadarnhad bod y darparwr IPS yn mabwysiadu'r cynigion fel y nodir yng Nghynllun SoPP y PSB perthnasol at ddibenion darparu'r IPS;

[107] Paragraff 5.1 yr ymgynghoriad.

d) Gwybodaeth ynglŷn â'r darparwr IPS, gan gynnwys cadarnhad bod gan y darparwr IPS 'reolaeth gyffredinol' dros yr IPS;

e) Disgrifiad o natur yr IPS, gan gynnwys y gwasanaethau sydd ynddo – er enghraifft, a yw'r IPS yn cynnwys un ODPS, mwy nag un ODPS, neu gyfuniad o ODPS a gwasanaethau eraill.

f) Mewn amgylchiadau lle nad oes unrhyw un o'r gwasanaethau ar yr IPS yn cael eu rheoli gan ddarparwr yr IPS, gwybodaeth am yr unigolyn sy'n rheoli'r gwasanaethau hyn;

g) Unrhyw wybodaeth berthnasol arall yr hoffai'r darparwr IPS i Ofcom ei hystyried wrth fynd ati i asesu p'un a ddylid dynodi'r IPS ai peidio.

3.64 Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn nodi'r broses arfaethedig a'r amserlenni dangosol ar gyfer rhanddeiliaid sy'n dymuno cyflwyno 'ceisiadau cynnar' yn 2025[108] (h.y. cyn i'r drefn amlygrwydd newydd ddechrau), yn ogystal â'r broses a fydd ar waith ar ôl hynny.[109]

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.65 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n proses arfaethedig i ddarparwyr IPS wneud cais i ddynodi IPS. Pwysleisiodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys IBT/Prifysgol Leeds, ei bod yn bwysig bod darparwyr IPS yn darparu gwybodaeth dryloyw a chyflawn yn brydlon er mwyn ein galluogi i wneud ein penderfyniadau dynodi.[110] Hefyd, pwysleisiodd Warner Bros Discovery ei bod yn bwysig bod gan drydydd partïon ddigon o amser i wneud sylwadau ar ein penderfyniadau dynodi arfaethedig.[111]

3.66 Cynigiodd [redacted] y dylid diwygio'r Datganiad i nodi proses i Ofcom ystyried dynodi IPS hyd yn oed pan nad yw'r darparwr IPS wedi gwneud cais.[112]

## Ein hymateb

3.67 O ran darparu gwybodaeth i Ofcom, rydyn ni'n cytuno â Warner Bros Discovery ac IBT/Prifysgol Leeds y dylai'r broses gwneud cais, gan gynnwys darparu gwybodaeth gan ddarparwyr IPS, gael ei gwneud mewn modd cynhwysfawr a phrydlon. Am y rheswm hwn, rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi ffurflen gais i helpu gyda'r broses hon a fydd yn cynnwys yr holl ffactorau a nodir ym mharagraff 3.63 uchod. Mewn ymateb i sylw Warner Bros Discovery ynghylch sicrhau bod gan drydydd partïon ddigon o amser i graffu ar benderfyniadau dynodi Ofcom, fel y nodir ym mharagraff 3.61 uchod, byddwn yn ymgynghori ar ein penderfyniadau dynodi arfaethedig i sicrhau tryloywder i randdeiliaid.[113]

3.68 Mewn perthynas â sylw [redacted], o dan y Ddeddf Cyfryngau, mater i ddarparwyr IPS yw dewis a ydynt yn dymuno cyflwyno cais am ddynodiad ai peidio.[114] Yn absenoldeb cais gan ddarparwr IPS, ac felly heb yr wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn penderfynu a yw'r meini prawf dynodi'n cael eu bodloni, ni fyddem mewn sefyllfa i wneud penderfyniad dynodi.

[108] Paragraffau 5.4 i 5.9 yr ymgynghoriad.
[109] Paragraffau 5.10 i 5.12 yr ymgynghoriad.
[110] Ymateb Warner Bros Discovery, t.4; Ymateb IBT/Prifysgol Leeds, t.7.
[111] Ymateb Warner Bros Discovery, t.4.
[112] [redacted]
[113] Paragraffau 5.6, 5.7 a 5.12 yr ymgynghoriad.
[114] Mae IPS sy'n cael di ddarparu gan y BBC yn cael ei ddynodi'n awtomatig (Adran 362AA(1)(a) o'r Ddeddf).

## Ein penderfyniad

3.69 Ar ôl ystyried yr ymatebion gan randdeiliaid, rydyn ni wedi penderfynu peidio â gwneud unrhyw ddiwygiadau i'n proses arfaethedig i ddarparwyr IPS wneud cais am ddynodiad.

3.70 Yn yr ymgynghoriad, roedden ni wedi dweud y byddem yn cyhoeddi rhagor o fanylion am amserlen y broses gwneud cais yn gynnar wrth baratoi'r ddogfen hon.[115] Ar sail gweithrediad y Ddeddf Cyfryngau ar hyn o bryd, rydyn ni wedi adolygu amserlenni'r prosesau gwneud cais arfaethedig ac wedi penderfynu nad oes angen cael proses gwneud cais cynnar ar wahân. Fodd bynnag, er mwyn galluogi PSBs i wneud cais am ddynodiad cyn gynted ag y daw'r drefn SoPP newydd i rym yn 2026, rydyn ni wedi penderfynu dechrau'r broses a fydd yn berthnasol i bob cais dynodi o fis Ionawr 2026 ymlaen. Mae manylion llawn y broses gwneud cais i'w gweld isod.

3.71 Er mwyn helpu PSBs gyda'r broses gwneud cais, byddwn yn datblygu ffurflen gais dynodi yn seiliedig ar yr wybodaeth y mae'n rhaid i ddarparwyr IPS ei darparu, fel y disgrifir ym mharagraff 3.63 uchod. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r ffurflen hon yn ddiweddarach eleni.

**Y broses i PSBs wneud cais am ddynodiad IPS**

Byddwn yn defnyddio'r broses ganlynol er mwyn i PSBs wneud cais am ddynodiad.

Dylai darparwyr IPS sy'n dymuno gwneud cais i ddynodi eu IPS gyflwyno'r dogfennau a'r wybodaeth ganlynol i ni:

a) Y dogfennau SoPP diweddaraf gan y PSB perthnasol, sy'n cynnwys Cynllun SoPP gyda chynigion y PSB ar gyfer y flwyddyn ganlynol ynghyd â'i adolygiad o berfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol (Adolygiad SoPP);

b) Unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'n hasesiad o Amodau 1 a 2[116] nad yw wedi'i chynnwys yn y dogfennau SoPP diweddaraf gan y PSB perthnasol;

c) Mewn amgylchiadau lle nad y PSB yw'r darparwr IPS, cadarnhad bod y darparwr IPS yn mabwysiadu'r cynigion fel y nodir yng Nghynllun SoPP y PSB perthnasol at ddibenion darparu'r IPS;

d) Gwybodaeth am y darparwr IPS, gan gynnwys cadarnhad bod gan y darparwr IPS 'reolaeth gyffredinol' dros yr IPS;

e) Disgrifiad o natur yr IPS, gan gynnwys y gwasanaethau sydd arno – er enghraifft, a yw'r IPS yn cynnwys un ODPS, mwy nag un ODPS, neu gyfuniad o ODPS a gwasanaethau eraill.

f) Mewn amgylchiadau lle nad oes unrhyw un o'r gwasanaethau ar yr IPS yn cael eu rheoli[117] gan ddarparwr yr IPS, gwybodaeth am yr unigolyn sy'n rheoli'r gwasanaethau hyn;

g) Unrhyw wybodaeth berthnasol arall yr hoffai'r darparwr IPS i Ofcom ei hystyried wrth asesu a ddylid dynodi'r IPS ai peidio.

**Y broses o wneud cais am ddynodiad:**

Bydd gennym ddau 'ffenest' reolaidd yn ystod y flwyddyn pan fydd modd cyflwyno ceisiadau i Ofcom am ddynodiad IPS. Gan ddechrau o fis Ionawr 2026 ymlaen, pan fyddwn

[115] Paragraff 5.5 yr ymgynghoriad.
[116] Mae'r wybodaeth berthnasol o'r fath wedi'i nodi yn adran 4 o'r ymgynghoriad.
[117] Pan gyfeirir at reolaeth yn yr amgylchiadau hyn, rydyn ni'n golygu rheolaeth olygyddol fel y diffinnir yn adran 368A(4) o'r Ddeddf.

yn disgwyl i'r drefn SoPP newydd ddod i rym, bydd y ffenestri hyn ym mis Ionawr a mis Gorffennaf bob blwyddyn. Dyma'r misoedd ar ôl y dyddiadau cau arferol ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun SoPP a'r Adolygiad SoPP yn y drefn honno.

Dylai darparwr IPS sy'n dymuno gwneud cais i ddynodi ei IPS o fis Ionawr 2026 ymlaen gyflwyno'r dogfennau canlynol:

i) Cynllun SoPP ac Adolygiad SoPP diweddaraf y PSB perthnasol.[118]

ii) Yr wybodaeth a nodir ym mharagraffau (b) i (g) uchod.

Er mwyn sicrhau tryloywder i randdeiliaid byddwn yn ymgynghori ar ein penderfyniadau dynodi arfaethedig, ac ar ôl ymgynghori bydd y penderfyniadau terfynol ynghylch dynodi yn cael eu cyhoeddi.

## Y broses ar gyfer dirymu dynodiad IPS

### Yr hyn a ddywedon ni

3.72 Yn yr ymgynghoriad,[119] fe wnaethon ni esbonio y gall Ofcom benderfynu dirymu dynodiad IPS os yw'n ystyried bod sail resymol dros gredu nad yw'r IPS yn parhau i fodloni'r meini prawf dynodi.

3.73 Mae'r Ddeddf yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Ofcom ddirymu dynodiad IPS. Yr amodau hyn yw (i) nad yw'r IPS dynodedig yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith y PSB trwyddedig neu S4C; (ii) nid yw'n hawdd canfod y cynnwys PSR ar yr IPS neu nid yw'n cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth; (iii) ni fyddai'n briodol i Ofcom ddynodi'r IPS.[120]

3.74 Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethon ni ddweud y bydd Ofcom, wrth benderfynu a yw'r meini prawf uchod yn cael eu bodloni, yn ystyried y materion a'r dystiolaeth a nodwyd gennym yn adran 4 o'r ymgynghoriad. Mewn geiriau eraill, bydd y dulliau roedden ni'n cynnig eu defnyddio yn ein penderfyniadau dynodi, fel y nodir uchod,[121] hefyd yn berthnasol i'n penderfyniadau dirymu.

3.75 Fe wnaethon ni hefyd egluro bod gan Ofcom bwerau gorfodi[122], gan gynnwys y pŵer i bennu'r camau y mae'n rhaid i ddarparwyr IPS dynodedig eu cymryd er mwyn cywiro methiant i gyflawni eu dyletswyddau parhaus[123] o dan y Ddeddf i sicrhau bod Amod 1 ac Amod 2 yn parhau i gael eu bodloni.

[118] Rydyn ni'n cydnabod na fydd yn bosib cyflwyno Adolygiad SoPP llawn tan fis Mehefin 2027, pan fydd yr adolygiadau perfformiad cyntaf o dan y drefn SoPP newydd yn cael eu cyhoeddi. Felly, rydyn ni'n disgwyl i PSBs sy'n gwneud cais am ddynodiad ym mis Ionawr 2026, ym mis Gorffennaf 2026 ac ym mis Ionawr 2027 gyflwyno gwybodaeth am eu cynlluniau i sicrhau bod trefniadau monitro perfformiad effeithlon ac effeithiol ar waith ar gyfer eu cynigion yn eu Cynlluniau SoPP i gyflawni eu cylch gwaith unigol.
[119] Paragraffau 5.13 i 5.17 yr ymgynghoriad.
[120] Adran 362AB(2) o'r Ddeddf.
[121] Gweler paragraffau 3.14, 3.39, 3.51 a 3.62 uchod.
[122] Adran 362AZ(1)(a) a (4) o'r Ddeddf.
[123] Adran 362AN o'r Ddeddf.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.76 Roedd STV yn annog Ofcom i roi cyfle i ddarparwyr IPS gywiro unrhyw ddiffygion a nodwyd gan Ofcom o fewn amserlen resymol, cyn dirymu.[124]

3.77 Dywedodd STV hefyd na ddylai ein penderfyniadau dirymu fod yn seiliedig ar giplun o'r IPS ar adeg benodol o ystyried na fydd gallu canfod, hyrwyddo a natur cynnwys PSR yn brofiad statig. Awgrymodd STV fod yn rhaid i'n hasesiad felly ystyried cydymffurfedd darparwr IPS dros gyfnod penodol o amser.[125]

3.78 Roedd Warner Bros Discovery yn argymell y tryloywder mwyaf posib ynghylch penderfyniadau dirymu ac yn gofyn am eglurder ynghylch a fyddai'r rhain yn cael eu cyhoeddi.[126]

## Ein hymateb

3.79 Mewn ymateb i bwynt STV ynghylch rhoi amserlen resymol i ddarparwyr IPS unioni unrhyw ddiffygion a nodwyd cyn dirymu, rydyn ni'n egluro yn y Datganiad[127] bod y Ddeddf yn mynnu ein bod yn rhoi gwybod i ddarparwr IPS ac yn rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau cyn gwneud unrhyw benderfyniad i ddirymu. Mae'r Ddeddf yn rhoi disgresiwn i ni benderfynu ar y cyfnod ar gyfer cyflwyno'r sylwadau hynny, a fydd yn cael ei hysbysu i'r darparwr IPS dan sylw.[128] Felly, byddwn yn cynnig cyfnod rhesymol a chymesur ar sail yr amgylchiadau penodol pan fyddwn yn rhoi rhybudd o dan y Ddeddf.

3.80 Rydyn ni'n cytuno ag STV na ddylai penderfyniadau dirymu fod yn seiliedig ar 'giplun' o'r IPS ar adeg benodol. Cyn cyhoeddi hysbysiad dirymu i ddarparwr IPS, byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys cydymffurfedd darparwr yr IPS â'r meini prawf dynodi dros gyfnod rhesymol.

3.81 Mewn perthynas â'r pwynt a godwyd gan Warner Bros Discovery ynghylch tryloywder penderfyniadau dirymu, mae ein Datganiad yn egluro mai ein bwriad yw cyhoeddi ein penderfyniadau mewn perthynas â dynodi IPS a dirymu dynodiad.[129]

## Ein penderfyniad

3.82 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion gan randdeiliaid, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dulliau arfaethedig ar gyfer dirymu dynodiad.

| **Dulliau ar gyfer dirymu dynodiad IPS** |
|---|
| Byddwn yn defnyddio'r dulliau canlynol ar gyfer dirymu dynodiad IPS:<br>Gall Ofcom benderfynu dirymu dynodiad IPS os yw'n ystyried bod sail resymol dros gredu nad yw'r IPS yn parhau i fodloni'r meini prawf dynodi.<br>Mae'r Ddeddf yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Ofcom ddirymu dynodiad IPS. Yr amodau hyn yw (i) nad yw'r IPS dynodedig yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith y PSB trwyddedig neu S4C; (ii) nid yw'n hawdd canfod y |

[124] Ymateb STV, t.9.
[125] Ymateb STV, t9.
[126] Ymateb Warner Bros Discovery, t.5.
[127] Paragraff A1.34 y Datganiad.
[128] Adran 362AB(3) o'r Ddeddf.
[129] Paragraff A1.40 y Datganiad.

cynnwys PSR ar yr IPS neu nid yw'n cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth; (iii) ni fyddai'n briodol i Ofcom ddynodi'r IPS.

Wrth benderfynu a yw'r meini prawf uchod yn cael eu bodloni, bydd Ofcom yn ystyried y materion a'r dystiolaeth sy'n berthnasol i'r amodau uchod ac sy'n cael eu trafod yn adran 4 o'r ymgynghoriad (mewn geiriau eraill, bydd y dulliau roedden ni'n cynnig eu defnyddio ar gyfer ein penderfyniadau dynodi, fel y nodir uchod,[130] hefyd yn berthnasol i'n penderfyniadau dirymu).

Mae gan Ofcom bwerau gorfodi, gan gynnwys y pŵer i bennu'r camau y mae'n rhaid i ddarparwyr IPS dynodedig eu cymryd er mwyn cywiro methiant i gyflawni eu dyletswyddau parhaus o dan y Ddeddf i sicrhau bod Amod 1 ac Amod 2 yn parhau i gael eu bodloni.

# Materion eraill

3.83 Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau nad oedden nhw'n ymwneud yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad, ond a oedd yn berthnasol i ddynodi IPS. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau ynghylch:

a) Monitro ac adolygu IPS
b) Darparwyr IPS ac unigolion cysylltiedig
c) Rheolaeth gyffredinol a chyfranogiad trydydd parti
d) Dynodi IPS nad yw'n ap

## Monitro ac adolygu IPS

3.84 Roedd rhai rhanddeiliaid y farn y dylid adolygu a monitro IPS dynodedig yn rheolaidd, gan ofyn am ragor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer hyn. Er enghraifft, dywedodd SSMT y dylid cael adolygiad manwl neu archwiliad blynyddol gydag Ofcom yn adrodd ac yn gwneud argymhellion ar sut mae darparwyr IPS yn rheoli pa mor hawdd yw canfod cynnwys PSR ar eu IPS.[131] Dywedodd Warner Bros Discovery y gallai Ofcom gynnal adolygiad ddwywaith y flwyddyn o'r 'system gyffredinol' a rhybuddiodd rhag dibynnu gormod ar baratoad y PSBs trwyddedig ac S4C o ddogfennau SoPPs blynyddol, gan ddweud na fyddai hynny'n addas ar gyfer adolygiad ehangach o effaith datblygiadau yn y farchnad.[132] Dywedodd Virgin y dylai Ofcom fonitro neu asesu IPS dynodedig yn rheolaidd, y tu allan i unrhyw adroddiadau gan y PSBs.[133] Roedd [redacted] yn cytuno y byddai adolygu dynodiadau IPS yn rheolaidd yn caniatáu i Ofcom bwyso a mesur cwmpas y dynodiadau ac a ydyn nhw'n dal yn briodol yng ngoleuni datblygiadau yn y sector.[134]

3.85 Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, mae'r ymgynghoriad yn nodi y byddwn yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir gan PSBs yn eu Hadolygiad SoPP wrth ystyried effeithiolrwydd trefniadau monitro perfformiad PSBs. Wrth i ni weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cyfryngau, byddwn yn parhau i ystyried sut rydyn ni'n monitro dyletswyddau parhaus darparwyr IPS dynodedig a darparwyr RTSS[135] ochr yn ochr â'n rhaglen barhaus o ymchwil a dadansoddi ar gyfer y system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

---

[130] Gweler paragraffau 3.14, 3.39, 3.51 a 3.62 uchod.
[131] Ymateb SSMT, t6.
[132] Ymateb Warner Bros Discovery, t.4.
[133] Ymateb Virgin nad yw'n gyfrinachol, t.6.
[134] [redacted]
[135] Adrannau 362AN a 362AO o'r Ddeddf.

## Darparwyr IPS ac unigolion cysylltiedig

3.86 Cawsom gwestiynau hefyd gan rai rhanddeiliaid ynghylch dynodi IPS sy'n cael ei ddarparu gan fwy nag un PSB neu gonsortiwm o PSBs. Yn benodol, gofynnodd [redacted] a Samsung i ni gadarnhau a fyddai IPS sy'n cael ei ddarparu gan gonsortiwm o PSBs yn gymwys i gael ei ddynodi.[136]

3.87 Gofynnodd [redacted] hefyd, er mwyn cael ei ystyried yn "gysylltiedig â" PSB o dan y Ddeddf, a oes yn rhaid i un PSB gael cyfran reoli o'r unigolyn cysylltiedig.

3.88 Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, gallwn gadarnhau na fyddai IPS sy'n cael ei ddarparu gan gonsortiwm o PSBs yn gymwys i gael ei ddynodi. Mae'r Ddeddf yn dweud yn glir mai'r "unig berson" y gellir ei drin fel rhywun sy'n darparu IPS yw'r person sydd â 'rheolaeth gyffredinol' dros y gwasanaeth.[137] Mae hyn yn golygu mai dim ond un 'person' cyfreithiol, fel endid corfforaethol, sy'n gallu bod yn ddarparwr IPS ac felly ni fyddai'n bosib i IPS gael ei ddarparu gan gonsortiwm o PSBs (p'un a ydyn nhw'n bodloni'r gofynion 'rheolaeth gyffredinol' o dan y Ddeddf ai peidio).[138]

3.89 O ran unigolion cysylltiedig, mae'r Datganiad yn esbonio: (i) ni all person fod yn gysylltiedig â C4C ac S4C oni bai fod y person yn cael ei reoli gan C4C neu S4C (fel y bo'n berthnasol); (ii) ni all person fod yn gysylltiedig â darparwr gwasanaeth Channel 3 neu Channel 5 oni bai fod yr unigolyn a'r PSB perthnasol yn cael eu rheoli gan yr un person.[139] Felly, rhaid i un endid – PSB fel C4C, S4C neu endid cyfreithiol arall – 'reoli' y person cysylltiedig, a byddwn yn ystyried ein canllawiau cyhoeddedig ar reolaeth[140] wrth ystyried a yw'r darparwr IPS yn gysylltiedig â'r PSB trwyddedig neu S4C, ac unrhyw faterion perthnasol.[141]

## Rheolaeth gyffredinol a chyfranogiad trydydd parti

3.90 Gofynnodd Virgin am ragor o eglurder mewn perthynas â rheolaeth gyffredinol ac yn benodol perchnogaeth neu weithrediad trydydd parti chwaraewr PSB. Roedd yn dweud ei bod yn bwysig bod unrhyw berthynas o'r fath yn ddigon tryloyw.[142]

3.91 O ran sylwadau Virgin, fel y nodir ym mharagraff 3.63 uchod, mae'n rhaid i ddarparwyr IPS ddarparu gwybodaeth yn eu ceisiadau dynodi ynghylch y darparwr IPS ei hun, gan gynnwys cadarnhad bod gan y darparwr IPS 'reolaeth gyffredinol' dros yr IPS, a gwybodaeth am unrhyw berson arall sy'n rheoli gwasanaethau ar yr IPS.

## Dynodi IPS nad yw'n ap

3.92 Dywedodd [redacted] y dylai Datganiad Ofcom ganiatáu dynodi IPS nad yw'n ap. Dywedodd fod y cyfeiriadau at 'apiau' PSB a ddefnyddiwyd yn ein hymgynghoriad a'n Datganiad drafft yn cyfuno IPS ac apiau, ac nad oeddent yn caniatáu ar gyfer senario lle gellid dynodi gwasanaeth nad yw'n ap yn IPS.[143]

---

[136] [redacted] Ymateb Samsung, t.2.
[137] Adran 362AZ12(2) o'r Ddeddf.
[138] Trafodir 'rheolaeth gyffredinol' ym mharagraff A1.15 y Datganiad.
[139] Adran 362AZ12(6) o'r Ddeddf.
[140] Canllawiau ar y diffiniad o reoli cwmnïau cyfryngau.
[141] Paragraff A1.16 y Datganiad.
[142] Ymateb Virgin nad yw'n gyfrinachol, t.5.
[143] [redacted]

3.93 Mewn ymateb i sylwadau [redacted], gallwn gadarnhau bod modd dynodi gwasanaeth PSB nad yw'n ap, ond sy'n bodloni'r diffiniad o IPS o dan y Ddeddf[144] ac sy'n bodloni'r amodau dynodi fel y disgrifir yn ein Datganiad. Er mwyn egluro'r pwynt hwn, rydyn ni wedi newid y cyfeiriadau at 'apiau teledu' yn y Datganiad i 'chwaraewyr teledu'.

[144] Adrannau 362AA(10) a (11) o'r Ddeddf.

# A1. Datganiad o Ddulliau

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

A1.1 Y ddogfen hon yw'r Datganiad o Ddulliau i'w defnyddio gan Ofcom wrth arfer ei swyddogaethau dynodi o dan y drefn amlygrwydd yn Rhan 3A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Mae adran 364AC y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom lunio'r datganiad hwn.

A1.2 O dan y drefn newydd, rôl Ofcom yw dynodi'r chwaraewyr teledu, y cyfeirir atynt fel 'gwasanaeth rhaglenni rhyngrwyd' (IPS), a ddarperir gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig (PSBs) – hynny yw, trwyddedeion Channel 3, C4C a Channel 5 – ac S4C, yn ogystal â'r bobl sy'n gysylltiedig â nhw. Dim ond os: i) bydd Ofcom yn penderfynu bod amodau penodol yn cael eu bodloni; ac ii) bod Ofcom o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny, y caiff Ofcom ddynodi IPS o'r fath.

A1.3 Mae'r datganiad hwn yn nodi'r dulliau y bydd Ofcom yn eu defnyddio wrth benderfynu:

a) a yw'r amodau dynodi ar gyfer IPS wedi cael eu bodloni;
b) a yw'n briodol dynodi IPS;
c) a yw IPS dynodedig bellach yn methu â diwallu'r amodau dynodi, neu nad yw bellach yn briodol dynodi IPS, fel bod Ofcom yn cynnig dirymu dynodiad yr IPS hwnnw.

## Fframwaith deddfwriaethol

A1.4 Mae'r adran hon yn crynhoi'r fframwaith cyfreithiol perthnasol sy'n sail i swyddogaethau dynodi Ofcom o dan y drefn amlygrwydd. Mae trosolwg manwl o'r fframwaith cyfreithiol yn atodiad 2.

A1.5 Nod gyffredinol y drefn yn Rhan 3A y Ddeddf yw sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael, yn amlwg ac yn hygyrch ar lwyfannau teledu cysylltiedig - cyfeirir atynt fel 'gwasanaethau dethol teledu' (TSS). Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn rhaid i ddarparwyr IPS dynodedig sicrhau bod eu gwasanaeth ar gael i TSS dynodedig (cyfeirir atynt fel TSS neu RTSS a reoleiddir) a bydd yn rhaid i ddarparwyr RTSS sicrhau bod IPS dynodedig PSBs, a'u cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, ar gael ac yn amlwg ar eu RTSS.

A1.6 Mae'r Ddeddf yn diffinio IPS fel gwasanaeth sy'n cynnwys: (i) gwasanaeth rhaglenni ar-alw (ODPS); neu (ii) gwasanaeth rhaglenni ar-alw a gwasanaethau eraill (e.e. gwasanaethau rhaglenni teledu sy'n cael eu ffrydio'n fyw).[145] Darparwr IPS yw'r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros y gwasanaeth.[146]

A1.7 Dim ond os yw'r canlynol yn wir y gall Ofcom ddynodi IPS a ddarperir gan PSB trwyddedig neu S4C, neu unigolyn sy'n gysylltiedig â nhw (er mwyn bod yn gryno, cyfeirir ato fel 'IPS a ddarperir gan PSB' yn y datganiad hwn):

a) Mae'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB trwyddedig neu S4C (Amod 1);

[145] Adrannau 362AA(10) a (11) o'r Ddeddf. Fel y nodwyd yn adran 11(c)(i) o'r Ddeddf, gall yr ODPS fod yn ODPS nad ydynt yn rhai'r DU.
[146] Adran 362AZ12(2) o'r Ddeddf.

b) Mae rhaglenni sydd wedi'u cynnwys ar yr IPS sy'n cyfrannu at gylch gwaith unigol y PSBs trwyddedig neu S4C (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel "cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus" (cynnwys PSR)) yn hawdd eu canfod ac yn cael eu hyrwyddo gan y gwasanaeth (Amod 2);

c) Mae Ofcom yn credu ei bod yn briodol dynodi'r IPS.

A1.8 Yn ychwanegol at ei rôl yn dynodi IPS sylfaenol PSB, caiff Ofcom ddynodi ail IPS neu IPS arall a ddarperir gan y PSB hwnnw (neu berson sy'n gysylltiedig â'r PSB hwnnw) os yw Ofcom o'r farn, yn ogystal â bodloni'r meini prawf dynodi a ddisgrifir uchod, bod y cyfraniad arfaethedig y byddai'r ail IPS neu IPS arall yn ei wneud tuag at gyflawni 'cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol' (cylch gwaith unigol) y PSB yn gallu bodloni anghenion a diddordebau cynulleidfa benodol.

A1.9 Ar ôl eu dynodi, mae'n rhaid i ddarparwyr DIPS ymgymryd â dyletswyddau parhaus i sicrhau bod yr amodau dynodi ym mharagraff A1.7(a) a (b) uchod yn dal i gael eu bodloni.[147] Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau gorfodi i Ofcom,[148] gan gynnwys y gallu i roi cosbau pan fydd darparwyr DIPS yn methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hyn,[149] ac i nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i unioni methiannau o'r fath.[150]

A1.10 Gall Ofcom hefyd benderfynu dirymu dynodiad IPS os yw'n ystyried bod sail resymol dros gredu nad yw'r IPS yn parhau i fodloni'r meini prawf dynodi.[151] Cyn gallu gwneud penderfyniad o'r fath, mae'n rhaid i Ofcom yn gyntaf roi gwybod i ddarparwr yr IPS a rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau.

A1.11 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom y gellir eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn hysbysu ein penderfyniadau i wneud neu ddirymu dynodiad ac i asesu cydymffurfedd â'r dyletswyddau parhaus i sicrhau bod yr amodau dynodi'n dal i gael eu bodloni.[152] Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Ofcom fynnu bod y sawl sy'n derbyn y cais yn cael neu'n cynhyrchu gwybodaeth.[153]

A1.12 Rhaid i Ofcom gyhoeddi datganiad am y dulliau y bydd yn eu defnyddio wrth benderfynu: (i) a yw'r meini prawf dynodi ar gyfer IPS yn cael eu bodloni; ac (ii) a yw IPS dynodedig bellach yn methu â diwallu'r meini prawf dynodi, fel bod Ofcom yn cynnig dirymu dynodiad yr IPS hwnnw.[154] Y ddogfen hon yw'r datganiad hwnnw.

A1.13 Gall Ofcom ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwn.[155]

# Dulliau dynodi Ofcom

## Darparwyr IPS ac unigolion cysylltiedig

A1.14 Cyn penderfynu a yw'r amodau dynodi yn cael eu bodloni ac a fyddai'n briodol dynodi IPS a ddarperir gan PSB, mae'n rhaid i Ofcom yn gyntaf fod yn fodlon mai'r unigolyn y mae'r cais

[147] Adran 362AN o'r Ddeddf.
[148] Adrannau 362AZ i 362AZ4 o'r Ddeddf
[149] Adrannau 362AZ3 a 362AZ4 o'r Ddeddf.
[150] Adran 362AZ(4) o'r Ddeddf.
[151] Adran 362AB(2) o'r Ddeddf.
[152] Adran 362AS o'r Ddeddf.
[153] Adran 362AS(3) a (4) o'r Ddeddf.
[154] Adran 362AC(1) o'r Ddeddf.
[155] Adran 362AC(2) o'r Ddeddf.

yn ymwneud ag ef – hynny yw, un o'r PSBs trwyddedig, S4C, neu unigolyn sy'n gysylltiedig ag un ohonynt – yw darparwr yr IPS dan sylw.

A1.15 Mae'r Ddeddf yn glir mai'r unig un all fod yn ddarparwr IPS yw'r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros yr IPS. Mae hyn yn golygu mai dim ond os oes ganddynt reolaeth gyffredinol dros yr IPS y bydd PSB trwyddedig, S4C, neu unigolyn sy'n gysylltiedig â nhw yn cael ei drin fel darparwr IPS. Mae 'rheolaeth gyffredinol' yn golygu, yn achos IPS lle mae'r rhaglenni wedi'u cynnwys mewn un ODPS, yr unigolyn sydd â 'chyfrifoldeb golygyddol'[156] dros yr ODPS. Ar gyfer unrhyw IPS arall, mae'n golygu'r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros ba ODPS a gwasanaethau eraill sy'n cael eu cynnwys ynddo.[157]

A1.16 Yn achos cais am ddynodiad lle mae'r darparwr yn unigolyn sy'n gysylltiedig â PSB trwyddedig neu S4C, mae'n rhaid i Ofcom hefyd fod yn fodlon bod yr unigolyn dan sylw'n 'gysylltiedig' â'r PSB trwyddedig neu S4C o fewn yr ystyr a nodir yn y Ddeddf. Yn achos unigolyn sy'n gysylltiedig â C4C ac S4C, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r unigolyn cysylltiedig gael ei reoli gan C4C neu S4C (fel sy'n berthnasol). Yn achos unigolyn sy'n gysylltiedig â darparwr gwasanaeth Channel 3 neu Channel 5, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r unigolyn cysylltiedig a'r PSB perthnasol gael eu rheoli gan yr un unigolyn. Mae gan 'reolaeth' yng nghyd-destun unigolion cysylltiedig yr un ystyr ag yn Neddf Darlledu 1990 h.y. rheolaeth buddiant mwyafrifol, rheolaeth de facto neu drefniant rheoli.[158] Wrth ystyried a yw darparwr gwasanaeth yn gysylltiedig â'r PSB trwyddedig neu S4C ac unrhyw faterion perthnasol, byddwn yn ystyried ein canllawiau cyhoeddedig ar reolaeth.[159]

## Amodau dynodi

A1.17 Mae Adrannau 362AA(3) a (4) o'r Ddeddf yn nodi dau amod y mae'n rhaid i IPS eu bodloni er mwyn i Ofcom allu ei ddynodi. Yn ogystal â'r amodau hyn, mae'n rhaid i Ofcom hefyd ystyried ei bod yn briodol dynodi'r IPS.[160]

### Amod 1: A yw'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith unigol y PSB trwyddedig neu S4C?

A1.18 Wrth benderfynu a yw'r amod hwn yn cael ei fodloni, bydd Ofcom yn ystyried arwyddocâd yng nghyd-destun cylch gwaith unigol pob PSB. Byddwn yn rhoi sylw penodol i ba raddau y bydd y cynnwys ar yr holl wasanaethau clyweledol perthnasol (gwasanaethau perthnasol)[161] y mae'r PSB wedi nodi yn ei ddatganiad polisi rhaglenni (SoPP) (ac eithrio'r IPS) yn cael ei gynnwys ar yr IPS. Cyfeirir at raglenni sydd wedi'u cynnwys ar IPS ac sy'n cyfrannu at gylch gwaith unigol PSB trwyddedig neu S4C fel cynnwys PSR. Gall yr IPS hefyd gynnig cynnwys nad yw PSB yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni ei gylch gwaith unigol (rydyn ni'n cyfeirio at hyn fel 'cynnwys nad yw'n PSR'), sy'n cynnwys y cynnwys y telir amdano. Fodd bynnag, ni fydd Ofcom yn ystyried cynnwys nad yw'n PSR wrth asesu a oes

---

[156] Diffinnir 'cyfrifoldeb golygyddol' yn Adran 368A(4) o'r Ddeddf.
[157] Adran 362AZ12(4) o'r Ddeddf.
[158] Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990.
[159] Canllawiau ar y diffiniad o reoli cwmnïau cyfryngau.
[160] Adran 362AA(2)(b) o'r Ddeddf.
[161] Mae 'gwasanaethau clyweledol perthnasol' yn cael eu diffinio yn adran 264(11) o'r Ddeddf. Mae PSBs trwyddedig ac S4C yn gallu defnyddio gwasanaethau clyweledol perthnasol ochr yn ochr â'u prif sianel deledu i gyfrannu at gyflawni eu cylch gwaith unigol (er mwyn cyflawni eu cylch gwaith unigol, mae'n rhaid i'r PSBs trwyddedig ac S4C hefyd wneud "cyfraniad digonol" at y rhwymedigaeth gyfunol ar bob PSB i gyflawni'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer teledu yn y DU (Adrannau 265(2)(b) a (3)(c) o'r Ddeddf (ar gyfer y PSBs trwyddedig); Adran 204A o'r Ddeddf (ar gyfer S4C), heb ddod i rym eto).

modd i'r IPS wneud cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith unigol y PSB trwyddedig neu S4C.

A1.19 Mae'r Ddeddf yn caniatáu i PSBs gyflawni eu cylchoedd gwaith drwy sicrhau bod cynnwys ar gael ar wasanaethau sy'n rhad ac am ddim, ac sydd naill ai: (i) yn cael eu darparu gan PSBs; neu (ii) yn cael eu darparu gan drydydd partïon o dan drefniadau rhwng y PSB a'r trydydd parti hwnnw.[162] Er mwyn bodloni Amod 1, rydyn ni'n credu y dylai darparwr IPS yn gyffredinol gynnwys ar ei IPS yr holl gynnwys ar yr holl wasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'i nodi yn ei SoPP (ac eithrio'r IPS).

A1.20 At ddibenion penderfyniad Ofcom ynghylch Amod 1, dylai darparwyr IPS gadarnhau'n bendant a fydd yr IPS yn cynnwys yr holl gynnwys ar yr holl wasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'i nodi yn ei SoPP (ac eithrio'r IPS). Os na fydd yr IPS yn darparu'r holl gynnwys hwn, dylai darparwr yr IPS egluro hyn.

A1.21 Wrth benderfynu a yw Amod 1 yn cael ei fodloni mewn perthynas â cheisiadau dynodi ail IPS neu IPS arall sydd wedi'u hanelu at fodloni anghenion a diddordebau cynulleidfa benodol, dylai darparwyr IPS gadarnhau a fydd yr IPS yn cynnig yr holl gynnwys ar y gwasanaethau perthnasol y mae'r PSB wedi'i nodi yn ei SoPP sydd wedi'i fwriadu ar gyfer y gynulleidfa benodol honno. Os na fydd yr ail IPS neu IPS arall yn darparu'r holl gynnwys hwn, dylai darparwr yr IPS egluro hyn.

## Amod 2: A yw cynnwys y cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth yn hawdd ei ganfod ac yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS?

A1.22 Yn y Ddeddf, diffinnir cynnwys PSR fel deunydd sydd wedi'i gynnwys ar yr IPS sy'n cyfrannu at gyflawni cylchoedd gwaith unigol PSBs trwyddedig ac S4C.[163] Fel y nodwyd uchod, gall yr IPS hefyd gynnig cynnwys nad yw'n cyfrannu at gyflawni'r cylchoedd gwaith unigol hyn (cynnwys nad yw'n gynnwys PSR).

A1.23 Wrth benderfynu a yw Amod 2 yn cael ei fodloni, bydd Ofcom yn ystyried gwybodaeth a ddarperir gan ddarparwyr IPS sy'n egluro: (i) y dull o sicrhau ei bod yn hawdd canfod cynnwys PSR ar yr IPS; (ii) sut y bydd cynnwys PSR yn cael ei hyrwyddo gan yr IPS. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth, wedi'i hategu gan ddata perthnasol, am y canlynol:

a) Sut y bydd cynnwys PSR yn cael ei leoli yn y mannau gyda lefelau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel[164] yr IPS fel bod sylw cynulleidfaoedd at y cynnwys hwn yn debygol o gynyddu o'i gymharu â chynnwys nad yw'n PSR;
b) Sut y bydd ei ddull o guradu (wedi'i arwain yn olygyddol a/neu algorithmig) yn helpu i hyrwyddo a sicrhau bod modd canfod cynnwys PSR yn rhwydd.

A1.24 Er mwyn bodloni Amod 2, rydyn ni'n credu bod yn rhaid i ddarparwyr IPS hyrwyddo a sicrhau ei bod yn hawdd canfod cynnwys yn y mannau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau traffig uchel eraill yr IPS:

a) amrywiaeth eang o gynnwys PSR sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu; a

[162] Adran 264(13) o'r Ddeddf.
[163] Adran 362AA(12) o'r Ddeddf.
[164] Mae 'man traffig uchel' yn cyfeirio at fan ar yr IPS sy'n cael ei weld a/neu ei ddefnyddio gan nifer sylweddol o bobl pan fyddant yn defnyddio'r IPS. Mae enghreifftiau o nodweddion a mannau gyda lefelau traffig uchel yn cynnwys: 'baner arwr' (h.y. y slot mwyaf ac amlycaf) yr hafan; rheiliau thema ar yr hafan; argymhellion yn y swyddogaeth chwilio; tabiau categorïau wedi'u curadu; rhaglenni awto-chwarae; argymhellion ar ddechrau neu ddiwedd rhaglenni; ac ymgyrchoedd ar thema.

b) chynnwys newyddion a materion cyfoes.

A1.25 Yn achos ail IPS neu IPS arall, bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynir gan ddarparwyr IPS yn unol â pharagraff A1.23 uchod, ynghyd â p'un a yw'r IPS yn hyrwyddo ac yn sicrhau bod y cynnwys a ddisgrifir ym mharagraff A1.24 uchod yn hawdd ei ganfod. Os bydd darparwr IPS o'r farn, oherwydd natur yr ail IPS neu IPS arall a'i gynulleidfa benodol arfaethedig, nad yw'n bosib hyrwyddo na sicrhau bod y cynnwys a ddisgrifir ym mharagraff A1.24 yn hawdd ei ganfod, dylai'r darparwr IPS egluro hyn.

A1.26 Mewn achosion lle mae darparwr IPS yn bwriadu cynnig cynnwys nad yw'n PSR ar yr IPS, dylai egluro sut y bydd yn gwneud yn siŵr nad yw hynny'n cael effaith niweidiol ar hyrwyddo a'r gallu i ganfod cynnwys PSR. Rydyn ni'n ystyried y dylai'r mannau gyda lefelau traffig uchel ar yr hafan yn ogystal â nodweddion a mannau eraill â lefelau traffig uchel yr IPS (gweler troednodyn 81) ddarparu cynnwys PSR yn bennaf er mwyn bodloni Amod 2.

## A yw'n briodol dynodi'r IPS?

A1.27 Wrth ystyried a yw'n briodol dynodi IPS, mae'r Ddeddf yn nodi materion penodol y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried. Sef:

- Y cynigion yn SoPP y PSB hwnnw o ran y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud tuag at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB;
- A yw'r cyfraniad arfaethedig hwnnw'n gallu bodloni anghenion a diddordebau amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd (neu gynulleidfa benodol yn achos ail IPS neu IPS arall);
- Pa mor effeithiol ac effeithlon yw gwaith y PSB o fonitro ei berfformiad mewn perthynas â chyflawni cylch gwaith unigol y PSB.

A1.28 Nodir isod yr hyn y bydd Ofcom yn ei ystyried mewn perthynas â phob un o'r materion hyn.

### Cynigion mewn SoPPs

A1.29 Fel y nodir yng nghanllawiau SoPP Ofcom, dylai SoPP y PSB gynnwys gwybodaeth am IPS y PSB hwnnw a'r cyfraniad y bydd yn ei wneud at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB. Bydd Ofcom yn rhoi ystyriaeth i'r cynigion hyn wrth ystyried a fyddai'n briodol dynodi IPS.

### Anghenion y gynulleidfa

A1.30 Wrth ystyried a oes modd i gyfraniad arfaethedig IPS fodloni anghenion a diddordebau amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, bydd Ofcom yn adolygu'r wybodaeth sydd yn SoPP y PSB ynghylch sut y bydd y PSB yn defnyddio ei IPS i fodloni anghenion a buddiannau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosib. Mae canllawiau SoPP yn nodi'r wybodaeth y gallai PSBs ei darparu er mwyn dangos hyn, a bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth hon at ddibenion ystyried a fyddai'n briodol dynodi IPS ai peidio.

A1.31 Yn achos ail IPS neu IPS arall, bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth sydd yn SoPP y PSB sy'n dangos sut y bydd y PSB yn defnyddio ail IPS neu IPS arall i fodloni anghenion a diddordebau cynulleidfa benodol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am bwy yw'r gynulleidfa darged, yn ogystal â strategaeth y PSB ar gyfer sicrhau y bydd y rhaglenni ar yr ail neu'r IPS arall yn bodloni anghenion a diddordebau'r gynulleidfa honno, gan ystyried natur y rhaglenni a'r pynciau y maent yn ymdrin â nhw**.** Gallai esboniad o'r fath gael ei ategu gan ddadansoddiad sy'n dangos ffigurau cynulleidfa ar gyfer y gwasanaeth perthnasol yn gyffredinol a demograffeg y gynulleidfa.

### Monitro perfformiad

A1.32 Wrth ystyried effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwaith monitro perfformiad PSB mewn perthynas â chyflawni ei gylch gwaith unigol, bydd Ofcom yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd gan PSBs yn eu Cynllun SoPP ac Adolygiad SoPP. Yn anad dim, bydd Ofcom yn edrych ar yr Adolygiad SoPP ac asesiad y PSB o sut mae wedi cyflawni ei gylch gwaith unigol ar draws pob un o'i wasanaethau perthnasol (sy'n cynnwys yr IPS), ac, wrth wneud hynny, sut mae'r PSB wedi gwneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSB. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried unrhyw asesiad ansoddol a / neu feintiol o berfformiad yr IPS a ddarperir gan y PSB.

### Materion eraill

A1.33 Yn ogystal â'r uchod, bydd Ofcom yn ystyried unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol yn ei farn ef wrth ystyried a yw'n briodol dynodi IPS,[165] gan roi sylw i'n dyletswyddau statudol perthnasol.

## Dulliau dirymu dynodiad Ofcom

A1.34 Gall Ofcom benderfynu dirymu dynodiad IPS, yn absenoldeb cais i wneud hynny gan ddarparwr yr IPS, ar y sail bod Ofcom yn ystyried bod sail resymol dros gredu bod un neu fwy o'r meini prawf yn adran 362AB(2) o'r Ddeddf yn cael eu bodloni. Cyn gallu gwneud penderfyniad o'r fath, mae'n rhaid i Ofcom yn gyntaf roi gwybod i ddarparwr yr IPS a rhoi cyfle iddo gyflwyno sylwadau.

A1.35 Dyma'r meini prawf yn adran 362AB(2):

a) Nid yw'r IPS dynodedig yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at gylch gwaith unigol y PSB trwyddedig neu S4C;
b) Nid yw'n hawdd canfod y cynnwys PSR ar yr IPS ac nid yw'n cael ei hyrwyddo gan y gwasanaeth; neu
c) Ni fyddai'n briodol i Ofcom ddynodi'r IPS.

A1.36 Wrth benderfynu a oes unrhyw un o'r meini prawf yn adran 362AB(2) yn cael eu bodloni, bydd Ofcom yn ystyried y materion a'r dystiolaeth a drafodwyd ym mharagraffau A1.18-1.33 uchod.

## Egwyddorion cyffredinol

A1.37 Byddwn yn egluro pam ein bod wedi defnyddio dull penodol yn ein penderfyniadau mewn perthynas â dynodi IPS neu ddirymu dynodiad a sut mae'r dull hwnnw'n cyd-fynd â'r dulliau a nodir yn y datganiad hwn.

A1.38 Fodd bynnag, efallai y byddwn yn ystyried ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol dilyn gwahanol ddulliau i'r rhai a nodir yn y datganiad hwn. Os byddwn yn dilyn gwahanol ddulliau, byddwn yn egluro pam ein bod wedi gwneud hyn.

A1.39 Efallai y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362AS y Ddeddf i gasglu tystiolaeth i lywio ein penderfyniadau mewn perthynas â'n penderfyniadau dynodi neu ddirymu.

[165] Adran 362AA(7) o'r Ddeddf.

A1.40 Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau mewn perthynas â dynodi IPS neu ddirymu dynodiad.

# A2. Y Fframwaith Cyfreithiol

A2.1 Mae’r atodiad hwn yn nodi’r fframwaith statudol ar gyfer dynodi gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd (IPS) o dan Ran 3A Deddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan Ran 2 Deddf Cyfryngau 2024. Dim ond crynodeb o’r darpariaethau perthnasol yw’r atodiad hwn, nid yw’n cymryd lle cyfeirio at y statud.

A2.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom i gyflawni ei swyddogaethau hefyd yn berthnasol, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[166] Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys y dymuniad i hyrwyddo’r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU, pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol, ac anghenion pobl ag anableddau.[167]

A2.3 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae’n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy’n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi’u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy’n ymddangos i Ofcom fel rhai sy’n gyfystyr â'r ymarfer rheoleiddio gorau.[168]

A2.4 Fel yr esbonnir ymhellach isod, pan fydd IPS yn cael ei ddynodi gan Ofcom (IPS dynodedig neu DIPS), bydd darparwr y DIPS yn ddarostyngedig i amrywiol rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys sicrhau bod y DIPS ar gael i wasanaethau dethol teledu (TSS)[169] sydd wedi’u dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol (TSS a reoleiddir neu RTSS).

## Gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd (IPS)

A2.5 Cyfeirir at chwaraewyr teledu PSBs y gellir eu dynodi fel gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd (IPS). Mae’r Ddeddf yn diffinio IPS fel gwasanaeth sydd naill ai (i) yn wasanaeth rhaglenni ar-alw yn gyfan gwbl (ODPS) neu (ii) yn wasanaeth rhaglenni ar-alw ynghyd â gwasanaethau eraill (e.e. gwasanaethau rhaglenni teledu sy’n cael eu ffrydio’n fyw).[170]

## Gwasanaethau rhaglenni rhyngrwyd dynodedig (DIPS)

A2.6 Mae’r Ddeddf yn diffinio DIPS fel IPS:

- sy’n cael eu darparu gan y BBC;

[166] Adran 3(1) o’r Ddeddf.
[167] Adran 3(4)(a), (d) ac (i) o’r Ddeddf.
[168] Adran 3(3) o’r Ddeddf.
[169] Mae TSS yn wasanaeth neu’n rhan ddatgysylltiol o wasanaeth, sy’n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y rhyngrwyd ac mewn cysylltiad ag Offer Teledu Rhyngrwyd (ITE) sy’n cynnwys (a) cyflwyno’r IPS sydd wedi’i gynnwys yn y gwasanaeth neu adran ddatgysylltiol y gwasanaeth; a (b) cyfleuster sy’n galluogi’r defnyddiwr i wneud y canlynol: (i) dewis rhwng yr IPS neu’r rhaglenni hynny a ddarperir gan yr IPS hynny neu’r ddau; ac (ii) cael mynediad i’r IPS neu’r rhaglen a ddewiswyd neu’r ddau (Adran 362AE(1) o’r Ddeddf. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol osod rheoliadau i ddiwygio’r diffiniad o “wasanaeth dethol teledu” neu “offer teledu rhyngrwyd” (adran 362AE(7)).
[170] Adran 362AA(10) a (11) o’r Ddeddf.

- sy’n cael eu darparu gan PSB trwyddedig neu S4C a’u dynodi gan Ofcom; neu
- sy’n cael eu darparu gan unigolyn sy’n gysylltiedig â PSB ac sy’n cael eu dynodi gan Ofcom.

A2.7 Felly, rôl Ofcom yw dynodi IPS a ddarperir gan PSBs trwyddedig ac S4C, yn ogystal â phobl sy’n gysylltiedig â’r PSBs.[171]

# Darparwyr IPS ac unigolion cysylltiedig

## Darparwyr IPS

A2.8 Yr unig unigolyn y gellir ei drin fel rhywun sy’n darparu IPS yw’r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros y gwasanaeth.[172]

A2.9 Mae’r unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros y gwasanaeth yn golygu:

a) yn achos IPS lle mae’r rhaglenni wedi’u cynnwys mewn un gwasanaeth rhaglenni ar-alw (ODPS), yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb golygyddol dros y gwasanaeth rhaglenni ar-alw o fewn ystyr a368A(4) o’r Ddeddf;[173] neu
b) yn achos unrhyw IPS arall, yr unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros ba ODPS, ODPS nad ydynt yn rhai’r DU ac IPS sydd wedi’u cynnwys yn y gwasanaeth.[174]

A2.10 Mae’r Ddeddf yn gwahaniaethu rhwng IPS a ddarperir gan C4C ac S4C ar y naill law, ac IPS a ddarperir gan gwmnïau C4 ac S4C ar y llaw arall. Nid yw darparu IPS gan C4C nac S4C yn cynnwys darpariaeth gan gwmnïau C4 ac S4C. Felly, wrth benderfynu pwy sydd â rheolaeth gyffredinol dros y gwasanaeth, dylid diystyru rheolaeth sy’n cael ei harfer, neu y gall cael ei harfer, gan C4C neu S4C dros benderfyniadau gan gwmni C4 neu S4C ynghylch yr hyn sydd i’w gynnwys mewn gwasanaeth.[175]

## Unigolion cysylltiedig

A2.11 Mae unigolyn yn gysylltiedig â PSB os:

a) yw’r unigolyn yn gorff corfforedig (e.e. cwmni) sy’n cael ei reoli gan y PSB; neu
b) lle mae’r PSB yn darparu gwasanaeth Channel 3 neu Channel 5, mae’r unigolyn a’r PSB yn gyrff corfforaethol (e.e. cwmnïau) sy’n cael eu rheoli gan yr un unigolyn.[176]

A2.12 Mae gan ‘rheolaeth’ yr un ystyr ag ym mharagraff 1(3) Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990,[177] sy’n nodi y gellir ystyried bod unigolyn yn ‘rheoli’ cwmni mewn unrhyw un o’r tri senario canlynol:

---

[171] Mae Adran 362AA(2) o’r Ddeddf hefyd yn rhoi’r pŵer i Ofcom ddynodi IPS a ddarperir gan unigolyn sy’n gysylltiedig â’r BBC pan fo’r amodau yn Adran 362AA(5) wedi’u bodloni. Nid yw’r darpariaethau hyn wedi cael eu dwyn i rym ar hyn o bryd ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried yn y ddogfen hon.
[172] Adran 362AZ12(2) o’r Ddeddf.
[173] Adran 362AZ12(3) o’r Ddeddf.
[174] Adran 362AZ12(4) o’r Ddeddf.
[175] Adran 362AZ12(5) o’r Ddeddf.
[176] Adran 362AZ12(6) o’r Ddeddf.
[177] Adran 362AZ12(7) o’r Ddeddf. Mae Ofcom wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch rheoli cwmnïau cyfryngau.

- **'Buddiant Mwyafrifol':** Mae unigolyn yn rheoli cwmni os bydd yn dal, neu os bydd ganddo hawl lesiannol i fwy na 50 y cant o gyfalaf cyfran ecwiti yn y corff, neu'n meddu ar fwy na 50 y cant o'r pŵer pleidleisio yn y corff;
- **'Rheolaeth De facto':** Hyd yn oed pan nad oes gan unigolyn fuddiant mwyafrifol, ystyrir ei fod yn rheoli cwmni lle mae'n rhesymol, o ystyried yr holl amgylchiadau, i ddisgwyl y byddant (os dewisant) yn gallu, yn y rhan fwyaf o achosion neu mewn ffyrdd arwyddocaol, drwy ba fodd bynnag, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, cyflawni'r canlyniad bod materion y corff yn cael eu cynnal yn unol â'u dymuniadau;
- **'Trefniant rheoli':** Mae unigolyn hefyd yn rheoli cwmni lle mae ganddo, neu lle mae ganddo hawl lesiannol i, 50 y cant o gyfalaf cyfranddaliadau ecwiti'r cwmni, neu'n meddu ar 50 y cant o'r pŵer pleidleisio yn y cwmni, ac mae ganddo drefniant gydag unrhyw gyfranogwr arall yn y cwmni o ran sut y mae unrhyw bŵer pleidleisio sydd gan y naill neu'r llall ohonynt i'w arfer neu beidio.

# Meini Prawf Dynodi

A2.13 Caiff Ofcom ddynodi IPS a ddarperir gan PSB trwyddedig neu S4C os bodlonir yr amodau canlynol:

a) Mae'r IPS yn gwneud cyfraniad arwyddocaol, neu'n gallu gwneud cyfraniad arwyddocaol, at gylch gwaith unigol y PSB trwyddedig neu S4C;
b) Mae rhaglenni sydd wedi'u cynnwys ar yr IPS sy'n cyfrannu at gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB trwyddedig neu S4C (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel 'cynnwys cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus') yn hawdd eu canfod ac yn cael eu hyrwyddo gan y gwasanaeth;
c) Mae Ofcom yn credu ei bod yn briodol dynodi'r IPS.[178]

## 'Priodoldeb'

A2.14 Wrth ystyried a yw'n briodol dynodi ISP PSB trwyddedig neu S4C, rhaid i Ofcom ystyried (ymysg pethau eraill):

- Y cynigion yn SoPP y PSB hwnnw o ran y cyfraniad y bydd yr IPS yn ei wneud tuag at gyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB;
- A yw'r cyfraniad arfaethedig hwnnw'n gallu bodloni anghenion a diddordebau amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd (neu gynulleidfa benodol yn achos ail IPS neu IPS arall);
- Pa mor effeithiol yw gwaith y PSB o fonitro ei berfformiad mewn perthynas â chyflawni cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol y PSB.

[178] Adran 362AA(2), (3) a (4) o'r Ddeddf.

# Cylchoedd gwaith a Datganiadau Polisi Rhaglenni ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus

## Cylchoedd gwaith unigol

A2.15 Mae gan bob PSB trwyddedig ac S4C gylch gwaith unigol y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni.

A2.16 Cylch gwaith unigol gwasanaethau Sianel 3 a Sianel 5 yw sicrhau bod amrywiaeth o raglenni amrywiol o ansawdd uchel ar gael.[179]

A2.17 Cylch gwaith unigol C4C yw sicrhau bod ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel.[180] Rhaid i'r rhaglenni hyn, yn benodol:

- dangos arloesedd, arbrofi a chreadigrwydd;
- apelio at chwaethau a diddordebau cymdeithas ddiwylliannol amrywiol;
- cynnwys llawer iawn o gynnwys addysgol;
- chael cymeriad unigryw.

A2.18 Cylch gwaith unigol S4C yw sicrhau bod ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel ar gael, gyda chyfran sylweddol ohonynt yn Gymraeg.[181]

A2.19 Dylai'r rhaglenni a gyhoeddir gan bob PSB trwyddedig ac S4C i gyflawni eu cylchoedd gwaith unigol allu cael eu hystyried at ddibenion asesu i ba raddau mae cylch gwaith cyffredinol y PSBs yn cael ei gyflawni, a dylai fod yn gyfraniad digonol at gyflawni cylch gwaith cyffredinol y PSBs.

## Cylch gwaith cyffredinol y PSBs

A2.20 Mae'r cylch gwaith cyffredinol y PSBs yn cael ei gyflawni pan fydd y PSBs (y BBC, y PSBs trwyddedig ac S4C), gyda'i gilydd, yn darparu amrywiaeth eang o raglenni sydd:[182]

a) Yn bodloni anghenion a diddordebau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosib, gan ystyried y ffordd y mae pobl yn cael gafael ar y rhaglenni, a phryd maen nhw'n cael gafael arnynt, yn ogystal â natur y rhaglenni a'r pynciau dan sylw.
b) Yn cynnig newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr ac awdurdodol, yn y DU (ac mewn gwahanol rannau o'r DU) ac yn fyd-eang, i gefnogi dealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth deg a gwybodus.
c) Yn gwasanaethu fel gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer gwybodaeth, addysg ac adloniant, gan gynnwys rhaglenni sy'n:
    i) adlewyrchu bywydau a phryderon gwahanol gymunedau a thraddodiadau diwylliannol y DU; ac
    ii) yn yr ieithoedd Cymraeg, Gaeleg, Gwyddeleg, Sgoteg, Sgoteg Ulster, neu Gernyweg.
d) Yn cynnwys cynyrchiadau gwreiddiol sy'n adlewyrchu bywydau a phryderon plant a phobl ifanc yn y DU, sy'n addysgol, ac sy'n eu helpu i ddeall y byd.

[179] Adran 265(2) o'r Ddeddf.
[180] Adran 265(3) o'r Ddeddf.
[181] Paragraff 3(2) o Ran 2 o Atodlen 12 o'r Ddeddf.
[182] Adran 264(4)-(6) o'r Ddeddf.

e) Yn cynnwys amrywiaeth a nifer addas o gynyrchiadau annibynnol, cynyrchiadau gwreiddiol, a rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i'r M25.

f) Yn cwmpasu ystod briodol o genres.

A2.21 Mae cylch gwaith cyffredinol y PSBs yn rhwymedigaeth ar y cyd ar yr holl PSBs, ac mae'n rhaid iddynt gyflawni'r cylch gwaith gyda'i gilydd. Mae'r drefn yn cynnig hyblygrwydd o ran cyfraniadau unigol PSBs i'r cylch gwaith PSB cyffredinol, ond er mwyn cyflawni eu cylchoedd gwaith unigol, mae'n rhaid i bob PSB trwyddedig ac S4C wneud cyfraniad digonol at y cylch gwaith PSB cyffredinol.

## Datganiadau Polisi Rhaglenni (SoPPs)

A2.22 Mae'n rhaid i PSBs trwyddedig ac S4C gynhyrchu SoPPs bob blwyddyn.[183] Rhaid i'r SoPPs:

- nodi sut bydd cylch gwaith unigol y PSB, sy'n cynnwys gwneud cyfraniad digonol at gylch gwaith cyffredinol y PSBs, yn cael ei gyflawni yn y flwyddyn i ddod;
- nodi sut bydd ei ofynion sy'n ymwneud â chwotâu rhaglenni, darpariaeth newyddion, gwneud rhaglenni rhanbarthol a chomisiynu yn cael eu cyflawni;[184]
- datgan pa wasanaethau clyweledol perthnasol[185] fydd yn cael eu defnyddio i gyfrannu at gyflawni cylch gwaith unigol y PSB, ac os felly, sut;
- chynnwys adolygiad perfformiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

A2.23 Wrth baratoi SoPPs, rhaid i'r PSBs trwyddedig ac S4C rhoi sylw i ganllawiau Ofcom, ystyried adroddiadau ffeithiol ac ystadegol blynyddol Ofcom ac adolygiadau o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, a rhoi sylw arbennig i'r rhai diweddaraf. Rhaid iddynt gyhoeddi'r SoPP cyn gynted â phosib ar ôl iddo gael ei gwblhau, gan roi sylw i ganllawiau Ofcom ynghylch y dull cyhoeddi.

# Dirymu dynodiad

A2.24 Gellir dirymu dynodiad IPS mewn dwy senario:

- **Dirymu awtomatig:** Mae dynodiad IPS sy'n cael ei ddarparu gan unigolyn sy'n gysylltiedig â PSB trwyddedig neu S4C yn cael ei ddirymu pan fydd yr unigolyn hwnnw'n peidio â bod yn gysylltiedig â'r PSB dan sylw.[186] Rhaid i'r unigolyn roi hysbysiad i Ofcom ei fod wedi peidio â bod yn gysylltiedig â'r PSB dan sylw. Dylid rhoi gwybod mewn ffordd sy'n cynnwys unrhyw wybodaeth y bydd ar Ofcom ei hangen.[187]
- **Dirymu gan Ofcom:** Rhaid i Ofcom ddirymu dynodiad IPS os yw'r darparwr IPS yn gofyn i ni wneud hynny.[188] Gallwn hefyd benderfynu dirymu dynodiad IPS os ydyn ni'n credu bod sail resymol dros gredu nad yw'r IPS yn bodloni'r meini prawf dynodi.[189] Os byddwn yn penderfynu dirymu dynodiad IPS ar y sail hon, byddwn yn rhoi rhybudd i'r darparwr IPS gan nodi'r sail a'r rhesymau dros ein barn nad yw'r IPS yn bodloni'r meini prawf

[183] Adran 266(1) o'r Ddeddf.
[184] Mae'r gofynion wedi'u nodi yn Adrannau 277 i 296 (yn achos y PSBs trwyddedig) ac Atodlen 12 Rhan 2 (yn achos S4C) o'r Ddeddf.
[185] Adran 264(11) o'r Ddeddf.
[186] Adran 362AB(1) o'r Ddeddf.
[187] Adran 362AD(1) a (2) o'r Ddeddf.
[188] Adran 362AB(7) o'r Ddeddf.
[189] Adran 362AB(2) o'r Ddeddf.

dynodi.[190] Byddwn hefyd yn egluro pam ein bod yn cynnig dirymu dynodiad yr IPS.[191] Bydd y darparwr IPS yn cael cyfle i ymateb i'r hysbysiad a chyflwyno sylwadau i Ofcom, a bydd yr hysbysiad yn nodi rhagor o fanylion am hyn, gan gynnwys y cyfnod ar gyfer cyflwyno'r sylwadau hynny.[192] Ar ôl i'r cyfnod amser a ganiateir ar gyfer sylwadau ddod i ben, bydd Ofcom yn dod i benderfyniad terfynol ac yn rhoi gwybod i'r darparwr IPS am y penderfyniad hwn.[193]

# Datganiad Ofcom am ddulliau

A2.25 Mae gan Ofcom ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi datganiad sy'n rhoi gwybodaeth am y dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth benderfynu'r canlynol:

- a yw'r amodau ar gyfer dynodi IPS wedi cael eu bodloni;
- a oes sail resymol dros gredu nad yw IPS yn bodloni un neu fwy o'r amodau dynodi, fel bod Ofcom yn cynnig dirymu dynodiad yr IPS hwnnw.[194]

A2.26 Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom y gellir eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch y materion hyn.[195]

# Effeithiau dynodiad

## Cyflwyno gofynion newydd ar gyfer DIPS a RTSS

A2.27 Pan fydd IPS a TSS yn cael eu dynodi, rhaid i ddarparwyr y DIPS a'r RTSS hynny gydymffurfio â'r drefn newydd. Darparwr DIPS fydd y PSB perthnasol, neu'r unigolyn sy'n gysylltiedig â'r PSB hwnnw. [196] Darparwr RTSS fydd yr unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros y ffordd y mae'r TSS yn cyflwyno'r IPS sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth i'w ddefnyddwyr.[197]

A2.28 Bydd darparwyr DIPS yn ddarostyngedig i rwymedigaeth 'rhaid cynnig', a bydd darparwyr RTSS yn ddarostyngedig i rwymedigaeth 'rhaid cario'.

A2.29 Mae'r gofynion 'rhaid cynnig' a 'rhaid cario' ar DIPS ac RTSS wedi'u dylunio i sicrhau bod DIPS yn cael lefel briodol o amlygrwydd a bod eu cynnwys yn dal ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd, er gwaethaf yr amrywiaeth gynyddol o ran cael gafael ar gynnwys sy'n cael ei ddarparu gan lwyfannau teledu cysylltiedig a gwasanaethau fideo ar-alw.

A2.30 Mae'r rhwymedigaeth 'rhaid cynnig' yn golygu bod yn rhaid i ddarparwr DIPS gynnig ei DIPS i bob darparwr RTSS.[198] Rhaid i'r darparwr DIPS wneud ei orau i sicrhau, mewn

---

[190] Adran 362AB(3)(a) - (b) o'r Ddeddf.
[191] Adran 362AB(3)(c) o'r Ddeddf.
[192] Adran 362AB(3)(d) - (e) o'r Ddeddf.
[193] Adran 362AB(4) o'r Ddeddf.
[194] Adran 362AC(1) o'r Ddeddf.
[195] Adran 362AS o'r Ddeddf.
[196] Adran 362AA(2) o'r Ddeddf.
[197] Adran 362AE(5) o'r Ddeddf. Mae adran 362AE(6) o'r Ddeddf yn dweud nad yw'r ffaith bod TSS yn dibynnu i unrhyw raddau ar algorithmau i bennu'r amlygrwydd a roddir i IPS neu unrhyw raglen a ddarperir gan yr IPS yn atal unigolyn rhag cael rheolaeth gyffredinol.
[198] Adran 362AJ(1) o'r Ddeddf.

perthynas â phob RTSS, bod cytundebau'n cael eu gwneud a'u cadw mewn grym i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnwys yn y RTSS.[199]

A2.31 Mae'r rhwymedigaeth "rhaid cario" yn golygu bod yn rhaid i ddarparwr RTSS, mewn perthynas â phob DIPS, ymrwymo i drefniadau gyda darparwr y DIPS er mwyn i'r RTSS gynnwys y DIPS hwnnw a chadw trefniadau o'r fath mewn grym.[200] Bydd angen i ddarparwyr RTSS sicrhau hefyd fod y DIPS, a, lle bo'n briodol, y cynnwys ar y DIPS sy'n cyfrannu at gyflawni cylchoedd gwaith unigol y PSB, wedi'u lleoli'n amlwg ar eu gwasanaethau[201] a bod y gwasanaethau hyn ar gael i'r rhai sydd ag anableddau (yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar eu golwg neu eu clyw).[202]

A2.32 Mae darparwyr DIPS ac RTSS yn destun dyletswyddau parhaus.[203] I ddarparwyr DIPS, mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt sicrhau bod yr amodau dynodi a ddisgrifir ym mharagraffau A2.13(a) a (b) uchod yn dal i gael eu bodloni. Mae gan ddarparwyr DIPS a RTSS hefyd ddyletswydd i weithredu'n gyson ag 'amcanion y cytundeb' wrth negodi'r trefniadau sy'n ofynnol i fodloni gofynion eu rhwymedigaethau 'rhaid cario' a 'rhaid cynnig'.[204] Amcanion y cytundeb yw:

a) DIPS yn cael lefel briodol o amlygrwydd mewn RTSS (sy'n ymgorffori cynnwys PSR ac unrhyw sianel restredig sydd wedi'i chynnwys yn y DIPS);[205]
b) nad yw'r trefniadau rhwng y darparwyr yn cael effaith niweidiol ar allu'r PSBs trwyddedig neu S4C i gyflawni eu cylchoedd gwaith unigol[206];
c) nid yw trefniadau'n cyfyngu'n anghymesur ar y ffordd y gall darparwr RTSS wneud datblygiadau arloesol o ran y ffyrdd y gall defnyddwyr ddewis a chael mynediad at IPS.[207]

A2.33 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau ynghylch sut gall darparwyr DIPS a darparwyr RTSS weithredu'n gyson ag amcanion y cytundeb.[208]

A2.34 Mae'r Ddeddf yn rhoi swyddogaeth datrys anghydfod[209] a phwerau gorfodi i Ofcom.[210]

# Dyletswydd twf economaidd

A2.35 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er

---

[199] Adran 362AJ(2) o'r Ddeddf. Mae rhwymedigaeth ar wahân ar gyfer unrhyw IPS a ddarperir gan y BBC (Adran 362AJ(4)). Mae manylion rhwymedigaethau'r BBC yn unol â Chytundeb y BBC ar gael ym Mharagraff 1.11 – 1.13 o Bolisi Dosbarthu'r BBC a Chymal B13 o weithgareddau masnachol a masnachu'r BBC: gofynion a chanllawiau – atodiad 3.
[200] Adran 362AK o'r Ddeddf.
[201] Adran 362AO(1) a (3) o'r Ddeddf.
[202] Adran 362AO(4) o'r Ddeddf.
[203] Adrannau 362AN a 362AO o'r Ddeddf.
[204] Adran 362AM o'r Ddeddf.
[205] Adran 362AM(1)(a) y Ddeddf.
[206] Adran 362AM(1)(b) o'r Ddeddf.
[207] Adran 362AM(1)(c) o'r Ddeddf.
[208] Rhaid i ganllawiau Ofcom hefyd gynnwys sut gall y BBC weithredu'n gyson ag amcanion y cytundeb wrth gyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau o dan Siarter a Chytundeb y BBC, sy'n debyg i'r gofyniad ar ddarparwyr DIPS eraill o dan Adran 362AJ(3) (Adran 362AL(2) o'r Ddeddf).
[209] Adrannau 362AT - 263AY o'r Ddeddf.
[210] Adrannau 362AZ - 362AZ5 o'r Ddeddf.

mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:

a) Bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen;
b) Bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur.[211]

A2.36 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod arloesedd a chystadleuaeth ymysg y ffactorau sy'n sbarduno twf economaidd.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

A2.37 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A2.38 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydyn ni'n cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

## Dyletswydd y Gymraeg

A2.39 Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

A2.40 Mae Safonau Llunio Polisïau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

[211] Adran 108(2)(b) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

# A3. Asesu Effaith

## Asesu effaith ein cynigion

A3.1 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf) yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ein penderfyniadau polisi a pham rydyn ni'n credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.[212]

A3.2 Roedd y dadansoddiad a gyflwynwyd drwy'r ddogfen ymgynghori (yn benodol adran 4) yn darparu ein hasesiad o effaith ein cynigion ac roedd yn asesiad effaith, yn unol â'r diffiniad yn adran 7 o'r Ddeddf. Ni chawsom unrhyw sylwadau penodol gan randdeiliaid ar ein hasesiad effaith. Mae Adran 3 o'r ddogfen hon yn nodi ein hymatebion i sylwadau rhanddeiliaid a'n penderfyniadau, gan gynnwys ein hasesiad terfynol o effaith y dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth ddynodi IPS. Yn yr ymgynghoriad, roedden ni wedi dweud, yn gyffredinol, ein bod yn credu y bydd ein dulliau o fudd i gynulleidfaoedd gan y byddant yn sicrhau bod DIPS yn caniatáu iddynt gael gafael ar y cynnwys amrywiol o ansawdd uchel sy'n ofynnol gan orchwylion y PSBs, a'u canfod yn hawdd. Nid yw'r newidiadau rydyn ni wedi penderfynu eu gwneud i'r Datganiad a drafodir ym mharagraffau 3.24 a 3.26 uchod yn effeithio ar y casgliad hwnnw.

A3.3 Byddwn yn cynnal asesiad effaith pellach wrth ymgynghori ynghylch ein penderfyniadau dynodi arfaethedig.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A3.4 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010[213]. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A3.5 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[214]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.6 Fe wnaethon ni egluro yn Atodiad 3 ein hymgynghoriad nad oeddem yn disgwyl i'r dulliau a gynigiwyd gael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb. Ni chawsom unrhyw sylwadau am ein hasesiad. Fel y nodir yn y ddogfen hon, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dulliau fel y cynigiwyd, ac eithrio'r newidiadau a drafodir ym mharagraffau 3.24

---

[212] Ofcom, Canllawiau Asesu Effaith, 2023.
[213] Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
[214] Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

a 3.26 uchod.  Nid ydyn ni'n credu bod y newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud i'r Datganiad yn effeithio ar gasgliad ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.  Felly, rydyn ni'n cadarnhau nad ydyn ni'n disgwyl y bydd y dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth wneud ein penderfyniadau dynodi yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb.

A3.7 Byddwn yn cynnal asesiad pellach o'r effaith ar gydraddoldeb wrth ymgynghori ynghylch ein penderfyniadau dynodi arfaethedig.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

A3.8 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[215] I roi hyn ar waith mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.[216] Yn unol â hyn, rydyn ni wedi ystyried effaith bosib ein hadolygiad ar (i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A3.9 Fe wnaethon ni egluro yn Atodiad 3 ein hymgynghoriad ein bod yn ystyried na fyddai'r dulliau arfaethedig yn trin y Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg nac yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Fe ddywedon ni ein bod yn disgwyl y bydd y drefn newydd o fudd i siaradwyr Cymraeg drwy sicrhau bod ganddynt fynediad at gynnwys PSB sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg.

A3.10 Ni chawsom unrhyw sylwadau am ein hasesiad.  Fel y nodir yn y ddogfen hon, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n dulliau fel y cynigiwyd, ac eithrio'r newidiadau a drafodir ym mharagraffau 3.24 a 3.26 uchod.  Nid ydyn ni'n credu bod y newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud i'r Datganiad yn effeithio ar gasgliad ein hasesiad o'r effaith ar y Gymraeg.  Felly, rydyn ni'n cadarnhau nad ydyn ni'n disgwyl i'r dulliau byddwn yn eu defnyddio wrth wneud ein penderfyniadau dynodi yn trin y Gymraeg yn wahanol i'r Saesneg nac yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.  Rydyn ni'n dal yn credu y bydd y drefn newydd o fudd i siaradwyr Cymraeg drwy sicrhau bod ganddynt fynediad at gynnwys PSB sy'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg.

A3.11 Byddwn yn cynnal asesiad pellach o'r effaith ar y Gymraeg wrth ymgynghori ynghylch ein penderfyniadau dynodi arfaethedig.

[215] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

[216] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.